



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

42/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

30/03/2023

Gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant  
(Cymru) 2014

# Adolygiad Llenyddiaeth

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

**OGI** © Crown Copyright Digital ISBN 978-1-80535-353-9

Barn ymchwilwyr sy'n cael ei fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o angenrheidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Dylid cyfeirio at y ddogfen hon fel:

Llewellyn, M., Verity, F. a Wallace, S (eds). (2023) *Gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Adolygiad Llenyddiaeth*. Caerdydd, Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 42/2023. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-adolygiad-lenyddiaeth>.

Dylid cyfeirio at yr Adroddiad Technegol fel:

Llewellyn, M., Verity, F. a Wallace, S (eds). (2020) *Gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Adolygiad Llenyddiaeth – Adroddiad Technegol*. Ar gael ar: [Adroddiad Technegol](#)

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio'r

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: [ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru](mailto:ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru)

Isod, ceir rhestr o awduron ar gyfer yr adolygiad llenyddiaeth:

***Gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Adolygiad Llenyddiaeth***

Awduron y penodau:

**Rhagarweiniad a dulliau**

Verity F., Wallace S., Llewellyn M., Anderson P. a Lyttleton-Smith J.

**Llesiant**

Anderson P., Lyttleton-Smith J., Kosnes L., Read S., Blackmore H. a Williams Z.

**Ataliad ac ymyriad cynnar**

Verity F., Read S. a Richards, J.

**Cyd-gynhyrchu**

Andrews N., Calder G., Blanluet N., Tetlow S. a Wallace S.

**Aml-asiantaeth**

Wallace C., Orrell A., Garthwaite T., Tetlow S. a Wallace S.

**Llais a rheolaeth**

Llewellyn M., Saltus R., Blackmore H., Tetlow S., Williams Z. a Wallace S.

**Ariannol ac economaidd**

Phillips C., Prowle M., Tetlow S. a Williams Z.

**Profiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr o dan y Ddeddf**

Wallace S.



Cardiff  
Metropolitan  
University



## Cynnwys

1.	Rhagarweiniad .....	2
2.	Dulliau .....	4
3.	Llesiant.....	6
4.	Ataliad ac ymyriad cynnar .....	9
5.	Cyd-gynhyrchu .....	12
6.	Aml-asiantaeth .....	16
7.	Llais a Rheolaeth .....	18
8.	Goblygiadau ariannol ac economaidd .....	21
9.	Profiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr o dan y Ddeddf.....	23
	Rhestr Gyfeirio A – Cyhoeddiadau a ddyfynnwyd yn yr adroddiad hwn .....	32
	Rhestr Gyfeirio B – Cyhoeddiadau ychwanegol a ddyfynnwyd yn yr Adroddiad Technegol ..	41

# 1. Rhagarweiniad

- 1.1 Crynodeb ydy'r ddogfen hon o'r adolygiad eang ei raddfa o'r llenyddiaeth a astudiwyd i fod yn sail i werthusiad *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (o hyn ymlaen y cyfeirir ati fel 'y Ddeddf').<sup>1</sup> Comisiynodd Llywodraeth Cymru bartneriaeth rhwng academyddion ar draws pedair prifysgol yng Nghymru ac ymgynghorwyr arbenigol i gyflenwi'r gwerthusiad. Mae'r Ddeddf yn gosod allan gweledigaeth llywodraeth i lunio 'newidiadau trawsnewidiol' ym mholisi cyhoeddus gwasanaethau cymdeithasol, rheoliadau a threfniadau cyflenwi ar draws Cymru. Mae iddi 11 o rannau ac yn seiliedig ar bum egwyddor sy'n gosod allan gweledigaeth i lunio newidiadau trawsnewidiol ym mholisi cyhoeddus gwasanaethau cymdeithasol, rheoliadau a threfniadau cyflenwi gwasanaeth. Yn cyd-redeg ag e mae strwythurau, prosesau a chodau ymarfer. Trefnir Gwerthusiad y Ddeddf – astudiaeth o'r enw IMPACT- o gwmpas y pum egwyddor ynghyd â ffocws ar agweddau ariannol ac economaidd o weithredu'r Ddeddf.
- 1.2 Y dull o fynd ati i gynnal yr ymchwil gwerthuso hwn ydy strwythuro'r gwerthusiad drwy ddefnyddio'r egwyddorion sylfaenol yn y Ddeddf fel sgaffaldwaith. Yr egwyddorion hyn ydy:
- Llesiant
  - Ataliad
  - Cyd-Gynhyrchu
  - Gweithio aml-asiantaethol
  - Llais a rheolaeth
- 1.3 Hefyd, mae ffocws ar ystyriaethau ariannol ac economaidd o roi'r Ddeddf ar waith ac mae'r maes hwn yn cynnwys y chweched thema gwerthuso.
- 1.4 Ategir y dull hwn o fynd ati gan ffocws ar y pum parth canlynol:
- **Unigolion** – a ydy'r bobl hyn yn derbyn cymorth a/neu ofal ai peidio;
  - **Teulu a gofalwyr**– y bobl hynny sy'n cynnig cymorth di-dâl i bobl ag anghenion;
  - **Cymunedau** – cymunedau'n seiliedig ar leoliad a ffurfiau eraill o gysylltiadau cymdeithasol;
  - **Gweithwyr** – a ydy'r rhain yn weithwyr gofal 'rheng flaen' sy'n cael eu talu, gweithwyr taledig y trydydd sector, rheolwyr tîm neu'r rheolwyr gofal hynny sy'n trefnu cymorth a gofal ar gyfer eraill;
  - **Sefydliadau** – a ydy'r rhain yn arweinwyr strategol cyrff y sector cyhoeddus – megis awdurdodau lleol a byrddau iechyd (yn cynnwys swyddogion cyllid), neu arweinwyr sefydliadau rhanddeiliaid allweddol.
- 1.5 Mae gan bob astudiaeth werthuso set o gwestiynau ymchwil. Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn gosod gwerthusiad y Ddeddf yn y llenyddiaeth academiaidd a pholisi ehangach er mwyn datblygu ar y sail wybodaeth sydd eisoes yn bodoli a'r trafodaethau perthnasol i bob un o themâu'r astudiaeth.
- 1.6 Mae'r adolygiad llenyddiaeth hwn yn diweddarar yr adolygiad llenyddiaeth gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2020. Mae'n cyfuno canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth cyntaf a chanfyddiadau chwiliad llenyddiaeth ac adolygiad a gynhaliwyd yn 2022. Felly, mae'r

---

<sup>1</sup> Gellir cyrchu'r Adroddiad Technegol o: [Adroddiad Technegol](#)

adroddiad hwn yn cynnig y cyfeiriadau mwyaf cyfredol. Mae'r adolygiad diweddaraf hwn hefyd yn cynnwys pennod newydd sy'n ffocysu ar is-grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yng Nghymru sydd fwyaf perthnasol i'n hastudiaeth h.y. plant a phobl ifanc), pobl anabl a phobl ag anabledd dysgu a siaradwyr Cymraeg.

## 2. Dulliau

*Fiona Verity, Sarah Wallace, Mark Llewellyn, Pippa Anderson a Jennifer Lyttleton-Smith*

Cynhaliwyd chwiliad cynhwysfawr o lenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth llwyd ar draws pump o'r chwe thema: ataliad ac ymyriad cynnar, cyd-gynhyrchu, gweithio aml-asiantaethol, llais a rheolaeth, a goblygiadau ariannol ac economaidd. Ceir manylion o'r chwiliadau llenyddiaeth a'r adolygiadau a gynhaliwyd yn yr Adroddiad Technegol <sup>2</sup>.

- 2.1 Roedd PRISMA (Preferred Reporting Items for Systematic Reviews and Meta-analysis (Moher et al., 2009), yn sail i'r cynllun/camau gweithredu ar gyfer y chwiliad llenyddiaeth a'r adolygiad. Cofnodwyd cyfuniad o dermau'r chwiliad y cytunwyd arnyn nhw a'u mireinio gan arweinwyr unigol ac ymgynghorwyr y Tîm Gwerthuso ar fasau data, er enghraifft, Scopus, ASSIA, a Gofal Cymdeithasol Ar-lein.
- 2.2 Ar gyfer y thema llesiant, defnyddiodd arweinwyr fap systematig i ddod o hyd i lenyddiaeth berthnasol. Map systematig yn fas data o lenyddiaeth academaidd, llwyd a pholisi a gyhoeddwyd ar bwnc penodol sy'n cael ei godio fesul categori megis maes pwnc, methodoleg, diddordeb neu astudiaeth y boblogaeth a dull damcaniaethol o fynd ati.
- 2.3 Atgynhyrchwyd y termau chwiliad ar gyfer adolygiad 2020 ar gyfer chwiliad ac adolygiad 2022 ar gyfer pob egwyddor, yn cynnwys termau a ddefnyddir o fewn ymarfer mapio systematig llesiant.
- 2.4 Isod, ceir nifer y papurau yn adolygiad 2020, y papurau ychwanegol yn niweddariad 2022 a'r cyfansymiau:

THEMA	NIFER Y PAPURAU YN ADOLYGIAD 2020	NIFER Y PAPURAU YN NIWEDDARIAD 2022	CYFANSWM NIFER Y PAPURAU
Llesiant	50	13	63
Llais a Rheolaeth	52	27	79
Ataliad ac ymyriadau cynnar	50	9	59
Cyd-gynhyrchu	52	17	69
Gweithio aml- asiantaethol	48	19	67
Goblygiadau ariannol ac economaidd	16	12	28
<b>CYFANSYMIAU</b>	<b>268</b>	<b>97</b>	<b>365</b>

---

<sup>2</sup> [Adroddiad Technegol](#)

- 2.5 Hefyd, roedd 24 o bapurau wedi'u cynnwys mewn maes ychwanegol ar gyfer yr adolygiad sef lluniadu ar bapurau ac adroddiadau ar brofiadau o Dan y Ddeddf o is-grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yng Nghymru (Pennod 9).
- 2.6 Isod, ceir negeseuon allweddol pob thema unigol yr adolygiadau.



### 3. Llesiant

*Pippa Anderson, Jennifer Lyttleton-Smith, Liv Kosnes, Simon Read, Heulwen Blackmore a Zoe Williams*

- 3.1 Mae'r adolygiad hwn yn ystyried cydlyniant cysyniadol llesiant fel y mae'n cael ei ddefnyddio o fewn y Ddeddf a'i chanllawiau cysylltiol. Mae llesiant yn syniad aml-ddimensiynol, yn aml yn ysgogi dull dewisol o fynd ati i ddiffinio a mesur ac mae perygl iddo fod yn aneglur neu'n ddadleuol. Felly mae'n hanfodol cael cydlyniant cysyniadol wrth ei ddefnyddio er mwyn cefnogi amcanion a gwerthuso polisi'r llywodraeth yn effeithiol a thryloyw. I ddeall y defnydd o lesiant yng Nghymru, adolygon ni'r dadleuon cyfredol am ddiffiniadau a mesuriadau llesiant wrth gyfeirio at bobl sydd angen gofal a chymorth. Er i ni ddarganfod ychydig o gydlyniant cysyniadol ym meini prawf llesiant megis hawliau ac effaith, cawson ni hefyd bod mwy o bwys yn cael ei roi ar ddehongliadau goddrychol o lesiant a 'hapusrwydd' o fewn y llenyddiaeth na welir yn y defnydd cyfredol o'r cysyniad yng Nghymru. Mae hyn yn cefnogi dull Cymru o fynd ati i ddiffinio a mesur llesiant tra hefyd yn awgrymu llwybr clir ar gyfer gwelliant
- 3.2 Mae dau faes cysyniadol o lesiant unigolyn yn dod i'r amlwg yn y llenyddiaeth:
- **Llesiant Ewdemonaid:** Agweddau perthynol a chymdeithasol llesiant megis cyrchu hawliau, cyfraniad i gymdeithas, parch a gweithred fel dinesydd, gallu cyrchu gweithgareddau positif, addysg a gwaith. Mae'n cysylltu gyda chysyniadau perthynol 'ansawdd bywyd' a 'safonau byw'.
  - **Llesiant Hedonig:** Agweddau emosiynol ac agweddau sy'n rhan o lesiant megis pleser a mwynhad. Mae'n cysylltu â chysyniadau iechyd meddwl o hapusrwydd a boddhad mewn bywyd. Yn gyfredol disgrifir y maes hwn yn 'llesiant goddrychol' (h.y. yr unigolyn ei hun sy'n ei fesur, yn hytrach na chael ei fesur gan ffactorau cyfrannol gwerthuso megis iechyd corfforol neu safonau byw).
- 3.3 Mae'r ddau faes er eu bod weithiau'n cael eu defnyddio ar wahân yn ategu ei gilydd (Henderson and Knight, 2012). Er enghraifft, mae derbyn parch cymdeithasol (llesiant ewdemonaid) yn aml yn arwain at bleser personol (llesiant hedonig). Gelwir yr arfer o ddefnyddio'r ddau safbwynt gan rai ymchwilwyr yn fodel "ffyniannus" o lesiant. Mae Huppert & So (2011) yn cynnig fframwaith cysyniadol sy'n cyfuno'r dulliau hedonig ac ewdemonaid o fynd ati.
- 3.4 Yn y llenyddiaeth gwelir a diffinnir dau brif ddull o fynd ati i roi'r cysyniadau hyn ar waith mewn polisi a mesuriadau. Sylwer y gallai'r ddau ddull o fynd ati gynnwys agweddau ewdemonaid a hedonig o lesiant.
- **Dull Cydrannol o Fynd Ati :** Y dull cydrannol o fynd ati ydy'r dull cyfredol o drafod llesiant , sef ei ddadelfennu'n gyfres o gydrannau neu elfennau annibynnol i'r unigolyn eu cyflawni (Atkinson, 2013; Ruggeri et al., 2020). Mae polisiâu sy'n defnyddio'r dull hwn yn ceisio galluogi pobl i gyrraedd y cydrannau hyn i wella'u llesiant megis perthynas, iechyd, gweithgareddau gwaith/hamdden, sefydlogrwydd ariannol ac addysg.
  - **Dull Galluedd o Fynd Ati:** Mae'r dull hwn o fynd ati yn hawlio y gelir asesu llesiant drwy ddeall gallu'r unigolyn i wneud rhywbeth neu fod yn rhywbeth a dylid gwerthuso unigolion yng nghyd-destun y cyfleodd sydd ar gael neu'n ymarferol yn hytrach na'u

cyflawniadau (Alkire, 2015; Sen, 2009). Hanfod 'bywydau ffyniannus' ydy achub ar y cyfleoedd hyn.

- 3.5 Ar gyfer pob un o'r dulliau hyn o fynd ati, dylid pennu a chymhwyso meysydd lleol o lesiant, perthnasol i ddiwylliant a hanes y lleoliad er mwyn diffinio a chymhwyso'r cysyniadau mewn polisi a mesuriad. Gallai fod angen addasu'r rhain ar gyfer gwahanol grwpiau o fewn poblogaeth. Nodwyd gan nifer y dylai gwneuthurwyr polisi, at ddibenion gwerthuso a monitro, geisio mesur effaith polisi (boddhad mewn bywyd), profiad (hwyliau ennyd awr) ac ewdemonia (pwrpas).

### **Pennu meysydd llesiant ar gyfer y grwpiau sydd dan y Ddeddf**

- 3.6 Prin oedd y llenyddiaeth a soniai am y cysyniad o lesiant yn ffocysu'n uniongyrchol ar y bobl a drafodwyd yn y Ddeddf. Roedd y sail o dystiolaeth a welson ni'n canolbwyntio'n gyffredinol ar fesur y boblogaeth oedolion yn gyfan neu'n canolbwyntio'n benodol ar blant neu bobl hŷn.
- 3.7 Ymhlith penderfynyddion llesiant oedolion mewn llenyddiaeth roedd iechyd, nodweddion personoliaeth ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn cynnwys incwm a statws cyflogaeth. Ar gyfer plant, sylweddolir yn y llenyddiaeth ddiweddar, bod rhaid rhoi blaenoriaeth i farn a phrofiadau plant – yn enwedig y plant hynny sy'n agored i niwed, wrth bennu meysydd eu llesiant.
- 3.8 Yn y DU, nodwyd pedwar maes canolog i lesiant plant a phobl ifanc sydd mewn gofal drwy ymchwil cyfranogol sef: perthynas, hawliau, adeiladu cydnerthedd ac adferiad (Selwyn et al., 2017). Mae'r rhain yn gorwedd ochr yn ochr â dangosyddion cyffredinol ar gyfer plant megis addysg, amddiffyn a sefydlogrwydd economaidd.
- 3.9 Ar gyfer pobl hŷn, iechyd, safonau byw a gweithred sy'n dod i'r amlwg yn y llenyddiaeth fel agweddau allweddol o lesiant, er y ceir beirniadaeth bod mesur llesiant pobl hŷn wedi methu â dal meysydd ewdemoniaidd a hedonig yn effeithiol, gyda gormod o ffocws ar bwyslais ar y cyntaf ar lefel y boblogaeth.

### **Y Ddeddf a llesiant yng Nghymru**

- 3.10 Mae diffiniad Llywodraeth Cymru o lesiant o fewn y Ddeddf a'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol (FfCC/NOF) yn ewdemoniaidd yn bennaf a phrin ydy'r sôn am y maes hedonig. Adlewyrchir hyn yn null Llywodraeth Cymru o fynd ati i fesur llesiant gan ddefnyddio dull cydrannol o fynd ati gyda phwyslais ar benderfynyddion ewdemoniaidd llesiant megis tai neu ystadegau cyflogaeth, yn hytrach nag elfennau hedonig megis hapusrwydd neu gyflwr emosiynol.
- 3.11 Er bod y Datganiad Llesiant a'r FfCC/NOC yn ymgyrraedd at hyn drwy geisio nodi, yn rhannol o leiaf, mai boddhad yr unigolyn sy'n pennu cyrhaeddiad, mae'r ffiniau a sefydlwyd o gwmpas canlyniadau llesiant personol a'r mesurau sydd yn bodoli ar hyn o bryd i werthuso effaith y Ddeddf yn dileu'r posibilrwydd o leoli llesiant mewn meysydd nad yw'n eu crybwyll. Felly, mae i ba raddau mae dull Cymru o drin llesiant ac yn benodol o dargedu pobl sydd angen gofal a chymorth yn cynnwys canfyddiadau goddrychol a hedonig, yn parhau i fod yn destun dadl.
- 3.12 Cafodd yr adolygiad hwn bod meysydd ewdemoniaidd a hedonig ynghyd â mesurau goddrychol yn cael eu hystyried yn bwysig ar gyfer adlewyrchu darpar effaith a gwir effaith

polisi cyhoeddus ar lesiant unigolion. Felly, mae angen i Lywodraeth Cymru fireinio'u defnydd o lesiant ymhellach – o ran ehangu'r graddau y mae'n ymgorffori elfennau a mesurau hedonig i fod yn gyson â'r llenyddiaeth gysyniadol.

- 3.13 Yn ychwanegol, cawson ni fwy o gryfder yn y dadleuon a gyflwynwyd i gefnogi dull galluedd o fynd ati i fesur, felly wrth symud yn ein blaenau, byddwn yn ystyried a ydy'r dystiolaeth yn ddigon cryf i argymhell addasu'r strategaeth gyfredol.

### **Y camau nesaf**

- 3.14 Mae'r tîm llesiant wedi ystyried fframwaith cysyniadol llesiant gyda phobl angen gofal a chymorth a gofalwyr angen cefnogaeth a chymorth o amrediad o gefndiroedd ac oedran. Mae hyn yn ein galluogi i adeiladu ar y llenyddiaeth gysyniadol sy'n cyfeirio at grwpiau penodol a bydd yn sail i unrhyw fireinio pellach o'r strategaeth werthuso.
- 3.15 A ninnau wedi sefydlu drwy 'r adolygiad llenyddiaeth bod bwch ym mesur ystyrlon llesiant pobl y soniwyd amdanyn nhw yn y Ddeddf, bydd y tîm yn ystyried strategaethau effeithiol ac effeithlon i wella'r dull o fesur. Byddwn yn llunio argymhellion yn seiliedig ar ymarfer ac anghenion polisi, gan gadw mewn cof yr angen, ar un llaw, i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol, ac ar y llaw arall i ystyried yr angen i ddangos cydlynid y cysyniad o lesiant ym mholisi gofal cymdeithasol Cymru.

## 4. Ataliad ac ymyriad cynnar

*Fiona Verity, Simon Read a Jonathan Richards*

- 4.1 Mae dulliau ataliol o fynd at ofal cymdeithasol yn cynnwys amrywiaeth o amcanion gwahanol ond perthnasol wedi'u seilio ar brosesau asesu a chynllunio, cyd-gynhyrchu a gweithio aml-asiantaethol. Yn hyn o beth, mae nifer o'r themâu a nodir mewn manau eraill o'r Adolygiad yn gorgyffwrdd gyda chynllun a chyflenwad gwasanaethau ataliol.
- 4.2 Ynghyd â deall canlyniadau ac effaith gwaith ataliol yn maes gofal cymdeithasol, ffocws ehangach yr adolygiad llenyddiaeth ystyried y fframweithiau ataliol a ddefnyddir, y modd y deallir y cysyniadau sylfaenol a'r modd y gweithredir ymyriadau a'u gwerthuso. Gwneir hyn drwy bedair adran:
- cysyniadau a diffiniadau atal ac ymyriad cynnar;
  - gyrwyr cyfoes ar gyfer y ffocws ataliol ym maes gofal cymdeithasol;
  - cyflwr y dystiolaeth am atal ym maes gofal cymdeithasol; a
  - dulliau ataliol o fynd ati ym maes gofal cymdeithasol.

### **Cysyniadau a diffiniadau mewn ataliad i ac ymyriad cynnar**

- 4.3 Mae llenyddiaeth gofal cymdeithasol ar ataliad ac ymyriad cynnar yn nodi fframwaith tair haen tri yn gyson â phatrwm iechyd cyhoeddus (Gough, 2013; Miller & Whitehead, 2015). Y tair lefel ydy:
- trydyddol / at y cwsmer – mae ymyriadau yn targedu problemau brys sy'n bodoli;
  - eilaidd / canol – yn targedu problemau a nodwyd ac atal pethau rhag gwaeth; a
  - sylfaenol / oddi wrth y cwsmer – yn targedu poblogaethau cyfan gyda chymorth cyn bod problemau yn cychwyn.
- 4.4 Mae cam cyntaf pob haen yn wahanol wedi'u hanelu at wahanol gynulleidfaedd. Mae rhai ymchwilwyr (e.e., Warin, et al., 2015) yn ystyried yr haenau hyn o ran amser, gan awgrymu y gallai agendâu atal sydd heb gysylltiad â realiti bywyd bob dydd fod yn llai effeithiol na'r rhai sydd wedi'u gwreiddio ym mhrofiadau bywyd.
- 4.5 Tra ceir cytundeb cyffredinol ar y fframwaith tair haen, mae amrywiaeth sylweddol yn parhau yn y modd y defnyddir y term 'ataliad' ei hun (Curry, 2006; Marczak et al., 2019). Mae'r derminoleg yn gorgyffwrdd ac mae gwahaniaethau yn gyffredin, yn cwmpasu ystod amrywiol o weithgareddau ac ymyriadau (Allen & Glasby, 2010; Marczak et al., 2019). O fewn y defnydd llac hwn o gysyniadau ataliad, y farn gyffredinol ydy bod gofal cymdeithasol wedi ffocysu'n bennaf ar ddulliau trydyddol ac eilaidd o fynd ati yn hytrach na gwaith sylfaenol oddi wrth y cwsmer (Gough, 2013).
- 4.6 Mae galw cynyddol am roi lefelau amrywiol o fframwaith tair haen ar waith ar y cyd yn hytrach nag yn annibynnol ynghyd â fframwaith ataliad gofal cymdeithasol sy'n newid y pwyslais (Marczak et al., 2019).

### **Gyrwyr cyfoes ar gyfer ffocws ataliol mewn gofal cymdeithasol**

- 4.7 Yn yr un modd â datblygiad hanesyddol, mae gan y camau cyfredol tuag at ataliad gyrwyr cyfochrog ac weithiau gyrwyr sy'n gwrthdaro (Gough, 2013; Clark, 2019; Marczak et al., 2019; Tew et al., 2019). Ynghyd â rheidrwydd economaidd o arbed costau, sonnir am atal

yn nhermau lleihau'r galw am y gwasanaeth yn ogystal â modd i gyflawni cyfiawnder cymdeithasol a lleihau anghydraddoldeb. Mae gan y gwahanol bwyntiau hyn oblygiadau i'r ymyriadau a ystyrir ar gyfer comisiynu, cynllunio a gwneud penderfyniadau.

- 4.8 Mae ymchwilyr wedi amlygu'r angen am fframweithiau comisiynu lleol 'rhyngddisgyblaethol, rhyngasiantaethol a rhyngadrannol' mwy cydnaws ag anghenion penodol i'r gymuned (Kerslake, 2011; 16). Mae'r pwyslais ar ataliad fel ymarfer i arbed hefyd wedi cael ei feirniadu. Er yr ystyrir na chafodd egni ac adnoddau cymunedol eu cyffwrdd i raddau helaeth, mae pryderon bod dulliau o'r brig i'r gwaelod o fynd ati yn llai effeithiol i harneisio'r rhain na phrosiectau llai eu graddfa, o'r gwaelod i fyny, dan arweiniad y gymuned.
- 4.9 Mae datblygiadau diweddar gyda busnesau yn y gymuned, mentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol wedi cynnig sail tystiolaeth gynyddol yn cynnwys manteision cost effeithiol mesuradwy ynghyd â dangosyddion o atgyfnerthu cymunedau a datblygiad (Hull et al., 2016; Bedford & Harper, 2018).

### **Cyflwr y dystiolaeth am ataliad mewn gofal cymdeithasol**

- 4.10 Ystyrir mai cyfyng ydy sail dystiolaeth wyddonol ar atal ym maes gofal cymdeithasol. Priodolir hyn i 'ddiffyg astudiaethau hydredol' (Curry, 2006; 1) sy'n tracio gweithrediad rhaglenni atal dros amser (Marczak et al., 2019). Gellir dadlau bod y diffyg hwn yn cymhlethu gwerth positif y teimlir bod dulliau fel hyn o fynd ati yn ei gynnig.
- 4.11 Fodd bynnag, mae ymdrechion diweddar i roi gwaith atal yn ei gyd-destun drwy dadansoddi'r manteision wedi dangos bod potensial i werthusiadau a allai helpu pobl i ddeall eu heffaith economaidd (Knapp et al., 2013).
- 4.12 Y tu hwnt i hyn, mae safbwynt 'diffyg tystiolaeth' yn cael ei ddadansoddi. Mae asesu ataliad yn gofyn am bersectif hir-dymor ac ymyriadau cyson. Eto i gyd, mae'r amodau cymdeithasol y mae mesurau ataliol yn ceisio eu newid yn rhai cymhleth a deinamig. Ar ben hynny, mae amrywiaethau yng nghylch gorchwyl gwaith atal yn golygu y gall dulliau asesu amrywio yn ddramatig. Mae sail tystiolaeth sylweddol am brofiad bywyd defnyddwyr, gwasanaethau cymdeithasol ac ymarferwyr a gan ddatblygwyr cymunedol, sydd yn aml yn cael ei anwybyddu o'i gymharu ag astudiaethau empirig, yn ogystal â'r potensial i ddefnyddio'r data gasglwyd yn rheolaidd er mwyn deall effeithiolrwydd y mentrau yn well (e.g., Emerson et al., 2011; Shapiro et al., 2013).

### **Dulliau ataliol o fynd ati ym maes gofal cymdeithasol**

- 4.13 Mae dulliau ataliol o fynd ati ym maes gofal cymdeithasol yn adlewyrchu'r fframwaith a amlinellwyd uchod, gyda'r ffocws blaenaf ar ymyriadau eilaidd a thrydyddol. Un pwyslais hollbwysig ydy'r angen i nodi ac ymateb i anghenion unigolion drwy raglenni ail-alluogi, darparu gwybodaeth a chymorth hunan-gyfeiriedig (Allen & Glasby, 2010). Yn gyffredinol mae'r rhain wedi'u plethu gyda nodau i gynnal annibyniaeth a chysylltedd cymdeithasol. Ffocyswyd hefyd ar ddatblygiad cymunedol, yn enwedig gyda'r twf diweddar mewn busnesau cymunedol ac ymchwil menter cymdeithasol (Abrams et al., 2019; Bedford & Harper, 2018; Hull et al., 2018). Mae nifer o'r mentrau hyn yn mabwysiadu 'persectif cryfder' a defnyddio syniadau am gyfalaf cymdeithasol a datblygu cymuned wedi'i seilio ar asedau (ABCD) tra hefyd yn cynnal egwyddorion o ran y gymuned yn rheoli a chyd-gynhyrchu. O ganlyniad, yng nghyd-destun gyrrwyr cyfoes, mae nifer o awduron yn cyfrannu

at y sylfaen dystiolaeth am y modd mwyaf priodol i annog cyfranogiad, amlygu pwysigrwydd bod yn sensitif i gyd-destunau lleol amrywiol a'r angen am gymorth comisiynu pellach er mwyn cynorthwyo i werthuso'r broses, yr effaith a chanlyniadau'r cyfryw waith yn barhaus.

### **Themâu'r adolygiad llenyddiaeth**

- Diffiniadau o atal ym maes gofal cymdeithasol yn cael eu herio gydag ystod o ddulliau o fynd ati sy'n rhychwantu'r strwythurau unigol, cymunedol; a'r strwythurau cymdeithasol.
- Mae cyswllt anorfod rhwng ataliad a chyd-gynhyrchu, llais a rheolaeth a gweithio'n aml-asiantaethol.
- Gellir gweithredu ataliad ym maes gofal cymdeithasol am nifer o resymau. Mae'r rhain yn gysylltiedig â chyflawni egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol a/neu'r farn bod atal yn fodd o arbed arian a galw araf am wasanaethau. Mae rhai yn dadlau nad yw atal yn weithred niwtral ei gost ond yn gofyn am fuddsoddiad hir-dymor.
- Mae angen fframweithiau comisiynu cryfach sy'n cynorthwyo penderfyniadau ar sail tystiolaeth am ble dylid neilltuo adnoddau at ddibenion atal.
- Ceir ystod o ffynonellau tystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd ac effaith gofal cymdeithasol ataliol (profiad bywyd, doethineb ymarferwyr a thystiolaeth wyddonol). Fodd bynnag, dydy sylfaen tystiolaeth wyddonol o ran ataliad ym maes gofal cymdeithasol 'ddim wedi datblygu'n ddigonol' a lle ceir tystiolaeth ddim yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol yn ymarferol.
- Mae gwaith diweddar ym maes busnesau cymunedol, mentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol yn cynnig datrysiadau posibl i fesur effaith ac effeithiolrwydd o ran anghenion cymunedol lleol penodol

## 5. Cyd-gynhyrchu

*Nick Andrews, Gideon Calder, Noreen Blanluet, Sion Tetlow a Sarah Wallace*

5.1 Rhennir crynodeb y llynyddiaeth a adolygwyd ar y thema cyd-gynhyrchu yn dair adran. Yn yr adran gyntaf rydyn ni'n crynhoi agweddau allweddol o'r newidiadau sydd eu hangen i hyrwyddo cyd-gynhyrchu llwyddiannus ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Yn yr ail adran rydyn ni'n nodi gwersi ar gyfer polisi yng Nghymru, a gribiniwyd o dystiolaeth am weithredu cyd-gynhyrchu mewn gwahanol wledydd a lleoliadau. Yn y drydedd adran, rydyn ni'n amlygu ffactorau galluogi allweddol, perthnasol i gyflawniad ymarferol o gyd-gynhyrchu yn y sectorau y mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â nhw.

### Strategaeth sefydliadol

5.2 Pwysleisiwyd bod y strwythurau a strategaeth sefydliadol o fewn y llynyddiaeth yn allweddol i gyd-gynhyrchu. Isod, amlygir y newidiadau yn strategaeth sefydliadol a fydd yn galluogi cyd-gynhyrchu llwyddiannus, wedi'u strwythuro o gwmpas problemau allweddol i fynd i'r afael â nhw, y newidiadau allweddol sydd eu hangen a'r agweddau dysgu allweddol sydd eu hangen i hwyluso newid.

5.3 *Problemau allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw*

- Anghysondebau posibl rhwng cyd-gynhyrchu a dulliau rheoli o fynd ati (Parry-Jones & Soulsby, 2001; Keinhans, 2017).
- Yr hyn sy'n gwneud prosiectau cyd-gynhyrchiol yn gynaliadwy (Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (DVSC), 2018; Meerkerk, 2018).
- Rhannu grym mewn gwasanaethau sensitif, e.e. y rhai lle mae dyletswyddau diogelu yn hollbwysig. (Munroe, 2011; Clarke et al., 2011).
- Ceir tensiynau rhwng y canlynol:
  - safonau hanfodol polisi a chyfyngiadau'r sefydliad / y gweithle (Gunasakera et al., 2017; Pearson et al., 2017; Pilgrim, 2018; Thom & Burnside, 2018);
  - cyd-gynhyrchu gwybodaeth berthnasol am wasanaethau arbennig a gofynion sefydledig cyllidwyr ymchwil a sefydliadau (Allen et al., 2018; Baines, 2018; Pilgrim, 2018);
  - safbwyntiau defnyddiwr gwasanaeth a darparwr ar wasanaethau priodol (McCarry et al., 2018; Wharne, 2015); a
  - safonau hanfodol wedi'u canoli ar wasanaeth a hanfodion cymdeithasol ehangach (Vaeggemose et al., 2017).
- Cael amcan o'r arbedion a chostau cyd-gynhyrchu a'r gwerth ychwanegol (Bovaird & Loeffler, 2012; Harlock, 2014).

5.4 *Y newidiadau allweddol sydd eu hangen*

- 'Newid hinsawdd' er mwyn galluogi gwir gyd-gynhyrchu (Bradley, 2015; Patterson et al., 2011).
- Addasu canlyniadau cwtogi ariannol sy'n effeithio ar wasanaethau (Keinhans, 2017; Pearson et al., 2017; Milson, 2018).

- Ffuriau newydd o reolaeth cyhoeddus sy'n gydnaws â chyd-gynhyrchu (Keinhans, 2017).
- Adolygu blaenoriaethau gwasanaethau a gynhelir yn draddodiadol ar linellau cyd-gynhyrchiol ar wahân (Gunasakera et al., 2017).
- Ffuriau iaith sy'n cyfieithu ar draws safbwyntiau gwahanol broffesiynau a defnyddwyr gwasanaeth (Patterson et al., 2011).

#### 5.5 *Agweddau allweddol yn dysgu i hwyluso newid*

- Defnydd gwell o dystiolaeth yn natblygiad gwasanaeth (Andrews et al., 2015).
- Dulliau integredig, plwraliaethol a hybrid o ddelio â cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid (Schlappa & Imani, 2012; Nandram & Koster, 2014; O'Leary et al., 2012).
- Cydnabod cyfnodau datblygu gwasanaethau cyd-gynhyrchiol (Freeman et al., 2016).
- Cipolygon o ystod llawn disgyblaethau academiaidd (Ellis, 2017; Allen et al., 2018).
- Ymgorffori mewnwelediadau proffesiynol a heb fod yn broffesiynol (Vaeggemose et al., 2017).

### **Cyfranogiad**

5.6 Cyflwynodd y llenyddiaeth hefyd ganfyddiadau allweddol yn ymwneud â chyfranogiad a pha broblemau, newidiadau a galluogwyr yn ymwneud â chyd-gynhyrchu a nodwyd

#### 5.7 *Problemau allweddol y mae rhaid mynd i'r afael â nhw*

- Gwahanol rwystrau rhag cyfranogi y mae gwahanol grwpiau yn eu hwynebu (Beresford, 2013; Cree et al., 2015).
- Diffyg ymgynghori hanesyddol gyda grwpiau arbennig (Bradley, 2015).
- Risgiau yn perthyn i arferion gor-amddiffynnol yn tansilio gweithredoedd (Sanders, 2006; Smale et al., 1993).
- Rhwystrau rhag cyfranogi a achosir gan ffactorau tu hwnt i reolaeth gwasanaeth (Doran & Buffel, 2018).
- Risgiau yn ymwneud ag esgeuluso rhai ffurfiau o drefniadaeth (DVSC, 2018).

#### 5.8 *Newidiadau allweddol sydd eu hangen*

- Dod o hyd i ddulliau hydrin o fynd ati sydd wir yn boddhau pob parti (Andrews et al., 2009; Smale et al., 1993).
- Cydnabod arbenigedd penodol a ymgorfforir mewn arferion lleol (DVSC, 2018).
- Datblygu is-adeiledd ategol i alluogi pob grŵp i gymryd rhan (Milson, 2018).
- Dod o hyd i ddulliau o weithio gyda neu o gwmpas arferion yn seiliedig ar risg / diffygion (Gale et al., 2018).
- Diwygio agweddau gwaharddol posibl o hinsawdd gwaith cadarn sefydliadau (Andrews et al., 2015).

#### 5.9 *Agweddau allweddol dysgu i hwyluso newid*

- Hyrwyddo prosesau democrataidd i drafod cysylltiadau (Budge et al., 2019).



- Rôl y dull perthynas-ganolog o fynd ati a dull person-ganolog o fynd ati (Andrews et al., 2009; Andrews et al., 2015; O’Leary, 2012; Nandram & Koster, 2014; Maurits et al., 2018).
- Rôl cyfalaf cymdeithasol (Meerkerk, 2018).
- Gwahanol rolau ac effeithiau gwasanaethau a gyd-gynhyrchwyd ar gyfer grwpiau gwahanol (Ford, 2015) .
- Ffuriau newydd/diwygiedig o asesu (Miller & Barrie, 2016; Andrews, 2009).

### **Gwersi ar gyfer polisi Cymru**

5.10 O dystiolaeth gymharol, gallwn nodi gwerth clir yn y canlynol:

- Manyleb plwralistaidd y Ddeddf o nodweddion allweddol cyd-gynhyrchu, yn adleisio polisi Norwy (Askheim et al., 2016);
- Blaenoriaethau dysgu o brosiectau sydd eisoes yn bodoli yn defnyddio cyd-gynhyrchu (Lowe & Plummer, 2019);
- Ffocysu ar yr hyn sy’n bwysig i bobl ‘ar lawr gwlad’ (Miller & Barrie, 2016; Weaver, 2018; Vrangbaek et al., 2019);
- Bod yn realistig am yr hyn sy’n ofynnol o ran cymorth a chymhellion i gyflawni nod y Ddeddf o ‘adeiladu’r economi leol o bobl yn cyfnewid eu sgiliau, eu diddordebau a’u hamser’ (Voorberg et al., 2018); a
- Derbyn a gweithio gyda’r disgwyliad y bydd trawsnewidiadau gwasanaethau yn – ‘aml-haenog’, yn aflêr, yn hylifol ac yn amlygu eu hun’ (Dougall et al., 2018).

5.11 Ynghyd â hyn, mae sialensiau clir yn y canlynol:

- Cyflawni’r ‘newid hinsawdd’ sydd ei angen i sicrhau gwir gyd-gynhyrchu (Miller and Barrie, 2016);
- Pontio’r bwll rhwng gwahanol raddfeydd o gyd-gynhyrchu perthnasol i’r ddarpariaeth o a chymorth (Bovaird et al., 2014);
- Gwir ymglymiad grwpiau penodol yn nyluniad a rheolaeth gwasanaethau (Duner et al., 2019); and
- Osgoi creu unrhyw argraff bod cyd-gynhyrchu wedi’i addo ond heb ei wireddu (Flinders & Wood, 2018).

### **Ffactorau galluogi**

5.12 Mae’r ffactorau galluogi isod yn gasgliadau a dynnwyd o drosolwg o bwyntiau sy’n dod i’r amlwg ar draws yr holl lenyddiaeth a adolygwyd.

5.13 *Gwybodaeth, deall a chynllunio*

- Meddwl yn eang er mwyn deall yn glir y potensial ar gyfer cyd-gynhyrchu ar draws dyluniad, cyflenwi a gwerthusiad gwasanaethau cyhoeddus.
- Sicrhau eglurder ar y gwahaniaeth rhwng cyd-gynhyrchu fel y cyfryw a ffyrdd perthynol o weithio megis cydweithredu.
- Pwysigrwydd o gyfuno gwahanol fathau o dystiolaeth wrth werthuso prosiectau cyd-gynhyrchiol.

#### 5.14 *Adnabod sialensiau ac ymateb iddyn nhw*

- Adnabod y sialensiau a mynd i'r afael â nhw ar gyfer cyd-gynhyrchu o fewn trefn lywodraethu cymhleth aml-lefel gwasanaethau cyhoeddus.
- Adnabod a delio gyda'r tensiwn rhwng dadleuon hawliau/ masnacheiddiwch a chydymddibyniaeth / chyfaddawd.
- Herio dulliau cyfredol o fynd ati sydd eisoes yn bodoli i gynllunio a pherfformiad sy'n galw am rhagweladwyedd a rheolaeth ac yn caniatáu ymddangosiad.
- Parodrwydd i wynebu'r hyn sydd mewn perygl pan *na* fydd cyd-gynhyrchu yn gweithio yn ôl y disgwyl gan ystyried y goblygiadau hyn ar gyfer darpar ymarfer.

#### 5.15 *Meithrin hinsawdd ac amgylchedd cefnogol a galluogi*

- Datblygu hinsawdd a modd o feddwl ymhlith gweithwyr proffesiynol a sefydliadau sydd wir yn gwerthfawrogi gwybodaeth unigolion a chymunedau.
- Darparu amgylchedd cefnogol a systemau ymgorfforedig sy'n galluogi cyd-gynhyrchu, ac yn dod â chost.
- Datblygu iaith gyffredin a pherthynas ystyrllon drwy sgysiau gofalgar ac ystyriaeth sy'n creu ymddiriedaeth.
- Goresgyn atgasedd at risg wrth wneud penderfyniad yn wyneb gwrthwynebiad gelyniaethus y wasg ac ymgyfreitha.
- Arweinyddiaeth sy'n datganoli grym a hyrwyddo gweithgaredd rheng flaen.
- Gwrando ar a chwyddo lleisiau na chlywir mohonyn nhw yn aml.
- Mwy o ffocws ar ganlyniadau cyd-gynhyrchu.

## 6. Aml-asiantaeth

Carolyn Wallace, Alison Orrell, Tony Garthwaite, Sion Tetlow a Sarah Wallace

- 6.1 Mae cydweithio ar draws asiantaeth gwasanaethau cymdeithasol yn heriol ond mae'n cynnig cyfle i ddatrys problemau a mynd i'r afael â darnio cyflenwi gwasanaeth a waethygir gan ymreolaeth sefydliadau, cystadleuaeth a dewis (King's Fund, 2019, 2013; Leichsenring et al., 2016). Mae'n cyflawni hyn drwy rannu gwybodaeth a sgiliau ei gilydd, gan ddod i gyd-ddealltwriaeth drwy gynnig amser a gofod i bobl ddod at ei gilydd a thrwy hynny yn fudd i unigolion, teuluoedd a chymunedau, ond ddim o angenrheidrwydd i economeg sefydliadau iechyd neu ofal cymdeithasol (Fernandez et al., 2018) ac yn ddibynnol ar nifer o newidynnau.
- 6.2 Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r ffocws o'r modd yr ydyn ni'n gweithio wedi symud o'i brif bryder o ran iechyd a chlefyd (y GIG yn benodol) i ddealltwriaeth bod gan iechyd a llesiant liaws o benderfynyddion ac y dylai cydweithio fod wedi'i ganoli ar y bobl drwy rymuso pobl a'u cymunedau, sefydliadau a gwneuthurwyr polisi er mwyn sicrhau bod pobl yn derbyn y 'gofal cywir ar yr amser priodol, yn y lle cywir yn unol â'u hanghenion a'r cyd-destun lleol' (WHO, 2018).
- 6.3 Mae'r Ddeddf ei hun yn defnyddio geiriau fel 'cydweithrediad', 'integreiddio gofal', 'partneriaeth', 'trefniadau ar y cyd' i ddisgrifio disgwyliad y Ddeddf ar y modd y dylen ni gydweithio. Mae Rheoliadau megis 'Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cymorth a Gofal ar gyfer Asesu'r Boblogaeth (Cymru) 2015' a 'Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015' yn nodi termau megis 'partneriaeth' sy'n cynnwys swyddogaethau a threfniadau penodol megis byrddau partneriaeth penodol, rhannu gwybodaeth, cyllidebau cyfun a gweithdrefnau atgyfeirio.
- 6.4 Defnyddir y term 'aml-asiantaethau yn aml yn gydggyfnewidiol yn y llenyddiaeth rhwng asiantaethau a gweithio mewn partneriaeth. Mae Peckover a Golding (2017) wedi cydnabod y dull aml-lefel hwn o fynd ati yn eu diffiniad ac rydyn ni'n ei ddefnyddio ar gyfer yr adolygiad llenyddiaeth hwn:
- 'Mae gweithio'n aml-asiantaethol yn cynnwys gwaith a gynhelir gan weithwyr proffesiynol gwahanol gyda'r un cleient a/neu deulu, yn aml yn gofyn am rannu gwybodaeth, cydlynu darpariaeth gwasanaeth a cyd-ymweld a/neu asesu. Cyd-destun arall ydy'r trefniadau strategol ffurfiol rhwng asiantaethau partner lleol'* (Peckover & Golding, 2017: 41).
- 6.5 Yn y bennod hon rydyn ni, yn y lle cyntaf, yn cynnig dealltwriaeth o ddiffiniadau'r termau a ddefnyddir yn y Ddeddf hon i ddisgrifio'r modd yr ydyn ni'n cydweithio. Rydyn ni'n ceisio dangos y berthynas rhyngddyn nhw (drwy eu nodweddion) a'r modd y mae gwaith aml-asiantaethol yn ffitio i mewn yn y continwwm rhwng gweithio cyfochrog ac integreiddio.
- 6.6 I wneud hyn, rydyn ni'n cydnabod bod byd cymhleth cydweithio yn cael ei ddatblygu drwy cysylltiadau yn rhyngweithio lle mae'r defnyddiwr gwasanaeth (lefel leol) yn dylanwadu ar gyd-destun y teulu, gofalwr sydd yn ei dro yn dylanwadu ar wybodaeth a newid mewn sefydliadau gofal (Cilliers, 1998; Preiser, 2016).
- 6.7 Mae ystyried cymhlethdod yr holl system yn ein helpu ni i ystyried y meysydd hyn tra'n nodi a deall ffactorau llwyddiant a'r sialensiau, y mecanweithiau a'r prosesau sydd eu hangen i gydweithio er mwyn diwallu amcanion y Ddeddf.
- 6.8 Y negeseuon allweddol o'r adolygiad llenyddiaeth ydy'r canlynol:

- Yn aml cyd-gyfnewidir y termau hyn ond mae iddyn nhw nodweddion cyffredin a ffactorau llwyddiant.
- Mae adeiladu cydberthnasau cydradd gyda iaith a diben cyffredin, diwylliant (ymddiriedaeth, gonestrwydd, cilyddiaeth), rheoli disgwyliadau, caniatâd a phrosesau yn allweddol er bod angen llawer o adnoddau (yn cynnwys amser).
- Mae cydweithio ar draws asiantaethau yn heriol ond mae'n cynnig cyfle i ddatrys problemau dwy rannu gwybodaeth a sgiliau gyda'n gilydd ac felly er budd unigolion, teuluoedd a chymunedau.
- Mae bwlb yn y llenyddiaeth aml-asiantaethol o ran barn a phrofiadau yr unigolyn, ond yn enwedig teulu a gofalwyr a'r gweithlu gan fod y llenyddiaeth yn ffocysu'n bennaf ar sefydliadau gofal, polisi a'r drefn lywodraethu.
- Mae gofal integredig wedi ffocysu'n bennaf ar gynnig gwasanaeth iechyd tan y blynyddoedd diweddar lle mae'n symud tuag at integreiddio iechyd a gofal.
- Does dim un astudiaeth wedi ceisio nodi ffactorau llwyddiant gweithlu gwlad sy'n ymdrechu gweithio'n aml-asiantaethol.

## 7. Llais a Rheolaeth

*Mark Llewellyn, Roiyah Saltus, Heulwen Blackmore, Sion Tetlow, Zoe Williams a Sarah Wallace*

- 7.1 O ran cysyniad 'llais a rheolaeth', dydy'r Ddeddf ddim yn cynnig unrhyw ddiffiniad ffurfiol. Mae darnau o ddiffiniadau o fewn gwahanol Rannau o'r Ddeddf a Chodau Ymarfer. Er enghraifft, mae Rhan 6 yn cynnig nifer o ddatganiadau allweddol sy'n ddirprwyon defnyddiol, a hefyd, er mwyn nodi agweddau allweddol o'r hyn y mae'n ei olygu i ddefnyddio 'llais a rheolaeth':
- *Hawl unigolion i gael eu clywed ...i gael rheolaeth dros eu bywyd bob dydd;*
  - *Clywir a gwrandewir ar fy marn;*
  - *Rydw i'n siarad drosto i fy hyn ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu bod gen i rywun a all wneud hynny ar fy rhan.*
- 7.2 Felly, seilir ein diffiniad o lais a rheolaeth ar hawl sylfaenol unigolion i gael dweud eu dweud a gwrandao arnyn nhw, rheoli eu bywyd bob dydd drwy gyfrannu at benderfyniadau ac, os byddai angen, derbyn cymorth o gael fy nghlywed.
- 7.3 Efallai yn drawiadol, ar y cyfan dydy'r llenyddiaeth gyhoeddedig ddim yn cynnig diffiniad clir o'r termau 'llais a rheolaeth' (Vamstad, 2016; Bamford a Bruce, Quereshi et al, Gabriel a Bowling, Quereshi a Henwood, a ddyfynnwyd gan Callaghan et al., 2014). Yr hyn y mae'r llenyddiaeth yn ei ddatgelu ydy bod termau megis llais a rheolaeth yn cael eu diffinio mewn gwahanol ffyrdd gyda thermau dirprwyol yn aml yn cael eu defnyddio a hynny'n golygu bod cysyniadau yn gorgyffwrdd.
- 7.4 Er nad yw mwyafrif y llenyddiaeth yn defnyddio na diffinio'n bendant y termau 'llais' a 'rheolaeth', mae nifer o gysyniadau tebyg neu gysylltiedig wedi cael eu diffinio o fewn y llenyddiaeth e.e., gofal person-ganolog (Washburn and Grossman, 2017), grymuso (Keyes et al., 2015), cyfranogiad (Havlicek et al., 2018), hunan-benderfyniad (Eades, 2018), personoli (Department of Health 2015; Glenndinning et al., 2015) a gwneud penderfyniadau ar y cyd (Brogan et al., 2018).
- 7.5 Gellir deall yr adolygiad llenyddiaeth o ran llais a rheolaeth o dan y categorïau bras canlynol:
- Unigolion**
- 7.6 Mae'r adolygiad yn ystyried sut mae ymdrechion i gynyddu llais a rheolaeth yn amlygu eu hun ac yn effeithio ar fywydau unigolion, gyda ffocws ar y rhai hynny sydd angen cymorth a gofal. Roedd y canfyddiadau yn berthnasol i ystod o grwpiau'r boblogaeth gyda llenyddiaeth yn datgelu cyd-destun grwpiau arbennig yn cynnwys lleoliad gofal cymdeithasol, er enghraifft lle roedd gan bob hŷn mwy/llai o lais a rheolaeth (Callaghan et al., 2014; Vamstad, 2016; Darby et al., 2017; Dunér et al., 2019).
- 7.7 Cofnodwyd problemau megis ansawdd bywyd (Reindl et al., 2016; Morris et al., 2017), hunan-eiriolaeth (Tideman & Svensson 2015; Hamilton et al., 2017), a llais pobl ag anabledau deallusol.
- 7.8 Mae canfyddiadau'r adran hon hyn cynnwys:

- cymhlethdod gweithredu egwyddorion llais a rheolaeth ar draws gwahanol leoliadau gofal;
- pwysigrwydd eiriolaeth ac hunan-eiriolaeth wrth greu synnwyr o lais a rheolaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth;
- sialensiau rhannu rheolaeth ar draws y sefydliadau a defnyddwyr gwasanaeth mewn gwahanol leoliadau gofal cymdeithasol; a'r
- sialensiau wrth weithredu egwyddorion llais a rheolaeth gyda gwahanol grwpiau o defnyddwyr gwasanaeth.

## **Gyrfaoedd**

7.9 Yn y llynyddiaeth, roedd hyn yn canolbwyntio ar sut y mae llais a rheolaeth yn gwella neu'n lleihau ar gyfer gofalwyr Th (Rand and Malley, 2014; Glendinning et al., 2015; McNeilly et al., 2018; Watts & Cavaye, 2018). O gofio'r ffocws ar hyn yn y Ddeddf, mae sialensiau adnoddau a phrosesau asesu (Seddon & Robinson, 2015; Ewing et al., 2016) ac adnoddau a chyllidebau (Glendinning et al., 2015; Larkin, 2015; Galiatsatos et al., 2017; Singleton & Fry, 2019) yn ffactorau allweddol wrth lunio'r modd y gelir gwella neu gyfyngu ar lais a rheolaeth gofalwyr.

7.10 Negeseuon allweddol yr adran hon o'r adolygiad llynyddiaeth ydy:

- yr angen i ddod o hyd i'r cydbwysedd priodol rhwng syniadau o ddinasyddiaeth a chael mwy o reolaeth ariannol;
- sialensiau rheolaeth ariannol wrth roi llais a rheolaeth i ofalwyr ac unigolion sy'n derbyn gofal; a
- phwysigrwydd arferion gofal cymdeithasol o ansawdd wrth rymuso gofalwyr i ennill synnwyr o lais a rheolaeth.

## **Gweithlu**

7.11 Hefyd, ystyriodd yr adolygiad llais a rheolaeth y gweithlu ar draws lleoliadau gofal cymdeithasol. Archwiliodd bolisi ac arferion cynorthwyo staff, rhwystrau a galluogwyr i feithrin grym, a rhannu rheolaeth a chyd-benderfynu (Gridely et al., 2014; Keyes et al., 2015; McCarter et al., 2016; Brogan, 2018), wrth ddatblygu gofal person-ganolog (Gridley et al., 2014; Hanga et al., 2017; Washburn & Grossman, 2017; Dunér et al., 2019) ac eiriolaeth (Eades, 2018).

7.12 Negeseuon allweddol yr adran hon ydy:

- pwysigrwydd dulliau person-ganolog o fynd ati i feithrin llais a rheolaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth;
- sialensiau sydd ynghlwm wrth weithredu polisi yn seiliedig ar egwyddorion llais a rheolaeth; a
- phwysigrwydd y berthynas rhwng ymarferydd a defnyddiwr gwasanaeth gan greu synnwyr da o lais a rheolaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

## **Sefydliadau**

7.13 Ffocws adran olaf yr adolygiad oedd rôl sefydliadau gofal a iechyd a llais a rheolaeth. Mae'r llynyddiaeth yn ffocysu ar un maes allweddol sef asesu, a'r dulliau y mae asesu gofal

(Darby et al., 2017; Hanga et al., 2017) a hunan-asesiadau (Keyes et al., 2015), a dulliau o fynd at y broses asesu (Skills for Care, 2018), yn effeithio ar egwyddorion ac arferion llais a rheolaeth sefydliadau gofal (Seddon & Robinson, 2015; Tucker et al., 2018).

7.14 Y canfyddiadau allweddol oedd bod:

- sialensiau i feithrin egwyddorion llais a rheolaeth mewn asesiadau iechyd a gofal cymdeithasol; a
- arferion person-ganolog a dulliau sgwrsio o fynd ati yn gallu cynnig llwyfan da ar gyfer egwyddorion llais a rheolaeth i'w gweithredu ym maes gofal cymdeithasol.

### **Galluogwyr a rhwystrau**

7.15 Yn gyffredinol, amlygodd yr adolygiad llenyddiaeth nifer o rwystrau a galluogwyr a all lesteirio neu gynorthwyo unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth i gael rhagor o fewnbwn yn eu gofal (llais) a mwy o lais dros yr hyn sy'n digwydd (rheolaeth).

7.16 *Galluogwyr*

- Eiriolaeth a hunan-eiriolaeth i greu synnwyr o lais a rheolaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth;
- Ymarfer ansawdd gofal cymdeithasol yn cynnig lais a rheolaeth i ofalwyr;
- Dulliau person-ganolog i feithrin egwyddorion llais a rheolaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth;
- Perthynas rhwng ymarferydd a defnyddiwr gwasanaeth i greu amodau i lais a rheolaeth fod yn effeithiol; a
- Dulliau person-ganolog sgwrsiol o fynd ati i ymarfer gofal cymdeithasol.

7.17 *Rhwystrau*

- Diffyg diffiniad clir o'r hyn y mae llais a rheolaeth yn ei olygu;
- Cymhlethdod defnyddio llais a rheolaeth mewn gwahanol leoliadau gofal cymdeithasol;
- Rhannu rheolaeth rhwng y sefydliad a'r defnyddiwr gwasanaeth mewn gwahanol leoliadau gofal cymdeithasol;
- Cymhlethdod o weithredu egwyddorion llais a rheolaeth gyda gwahanol grwpiau defnyddwyr gwasanaeth, e.e., pobl hŷn gyda dementia neu blant ifanc.

## 8. Goblygiadau ariannol ac economaidd

*Ceri Phillips, Malcolm Prowle M, Sion Tetlow a Zoe Williams*

8.1 Mae'r adran hon o'r adolygiad llenyddiaeth wedi ystyried goblygiadau economaidd ymyriadau penodol ar draws amrywiaeth o leoliadau gofal cymdeithasol, yn ogystal ag ystod o fodolau a ddefnyddiwyd i asesu'r costau a'r manteision yng ngwahanol gyd-destunau gofal cymdeithasol a iechyd.

8.2 Trefnir rhai o'r negeseuon allweddol yn dair brif adran:

- Problemau methodoleg wrth ystyried goblygiadau ariannol ac economaidd polisi;
- Dadansoddiad economaidd ac ariannol o ymyriadau yn erbyn gofal arferol;
- Ystyried strategaethau ar gyfer gostwng gwariant y llywodraeth ar ofal cymdeithasol.

### **Problemau methodoleg wrth ystyried goblygiadau ariannol ac economaidd polisi**

8.3 Mae'r adran hon yn ystyried llenyddiaeth o ran problemau methodoleg sy'n digwydd wrth drafod goblygiadau ariannol ac economaidd polisi.

Negeseuon allweddol:

- Anawsterau mesur gwelliannau mewn llesiant mewn modd gwrthrychol, er bod nifer o ddulliau o fynd ati ar gael (Frick & Kunz, 2008);
- Cymhlethdod asesu pa mor 'gost effeithiol' ydy gwasanaethau gofal cymdeithasol ar y cyd â dangosyddion ansawdd bywyd (Frick & Kunz, 2008; Teresi et al., 2017);
- Anawsterau o ran priodoli gwelliannau mewn llesiant i effaith uniongyrchol y SSWBA, mewn cyferbyniad â ffactorau eraill;
- Prin ydy'r wybodaeth am fesur gwelliannau yn y defnydd o adnoddau o ganlyniad o ofal integredig, yn rhannol oherwydd diffyg dulliau digonol, ac yn rhannol oherwydd methiant i gynnwys gwerthusiad economaidd yn nyluniad, cynllun a gweithrediad gofal integredig (Stein et al., 2016);
- Argaeledd a sialensiau defnyddio adnoddau a modelau gwahanol i werthuso iechyd economaidd gwasanaethau penodol (Sanders et al., 2017);
- Datblygu mesurau galluedd penodol ar gyfer mesur canlyniadau economaidd ymyriadau a luniwyd ar gyfer plant a phobl ifanc (Mitchell et al., 2021); Mae mesurau Galluedd yn ddewis amgen i asesiadau safonol iechyd meddwl a llesiant (e.e. the EQ5D) a 'ddadleuir ei fod yn cynnig gofod gwerthuso cyfoethocach na'r dull cyfredol o fynd ati sydd (1) yn cyfyngu'r ffocws i swyddogaeth iechyd penodol, a (2) yn ffocysu yn unig ar yr hyn y mae unigolion yn ei wneud heb ystyried a ydyn nhw'n gallu ei wneud, hyd yn oed os ydyn nhw'n dewis peidio ei wneud' (Mitchell et al, 2021);
- I ymyriadau adnoddau modelu fod yn llwyddiannus dylen nhw gael eu cyd-gynhyrchu gan ddylunwyr yr ymyriad a'r defnyddwyr eu hunain (Sanders et al., 2017);
- Er mwyn cynorthwyo i gofnodi'r holl gostau a'r manteision perthnasol i asesu ymyriadau iechyd cyhoeddus, mae Marsh et al. (2012) yn cynnig 1) mae angen i'r duedd o ddefnyddio dulliau modelu o fynd ati sy'n cofnodi effeithiau ymyriadau



iechyd cyhoeddus yn well, barhau gydag economegwyr i ystyried ystod ehangach o dechnegau modelau, a hwylusir gan ddata gwell ar ganlyniadau ymddygiad 2) y defnydd o 'batrymau gwerthuso' sy'n cynnwys dull galluedd o fynd ati a'r dull goddrychol o ddelio â llesiant.

### **Dadansoddiad economaidd ac ariannol ymyriadau yn erbyn gofal arferol**

8.4 Mae'r adran hon yn ystyried llenyddiaeth sy'n cymharu dadansoddiad economaidd ac ariannol o ymyriadau penodol yn erbyn gofal arferol.

Negeseuon allweddol:

- Gall ymyriadau penodol gael effaith bositif ar ganlyniadau ac ar gost effeithiolrwydd ar gyfer sefydliadau gofal, er enghraifft, Bauer (2016);
- Gallai rhai ymyriadau fod yn ddrutach yn y byr-dymor ond efallai'n gellid adfer costau pellach yn nes ymlaen yn ystod y tymor hirach (gweler ymyriad PBCM) (Rutter & Quinton, 1984);
- Dylid cymryd pwyll wrth ddefnyddio ymyriadau heb fawr o ymchwil a llenyddiaeth gwerthuso i gynorthwyo eu defnydd.

### **Ystyried strategaethau ar gyfer cwtdogi ar wariant y Llywodraeth ar ofal cymdeithasol**

8.5 Mae'r adran hon yn ystyried strategaethau ar gyfer cynyddu capasiti dros amrywiaeth o leoliadau gofal cymdeithasol a iechyd.

Negeseuon allweddol:

- Sialensiau a chymhlethdodau o ddefnyddio modelau 'cost effeithiol' mewn gwahanol cyd-destunau gofal cymdeithasol o iechyd (Edwards et al., 2014);
- Gallai strategaethau ataliol hirdymor gynyddu capasiti (Byrne-Maguire, 2017);
- Gwella problem o ynysu cymdeithasol ymhlith cleifion hŷn a gallai cynnal adolygiad blynyddol ar dementia ar gyfer cleifion dementia fod â'r potensial i ostwng yr oedi rhag rhyddhau cleifion o'r ysbyty (Landeiro et al., 2015; Goddard et al., 2016);
- Mae cryn ddadlau am y gwahaniaeth mewn goblygiadau adnoddau aml-forbidrwydd o'i gymharu â morbidrwydd unigol (Brilleman et al., 2013);
- Efallai na fydd costau a budd-daliadau cysylltiedig â'r SSWBA yn cael eu dosbarthu'n gyson a chyfartal dros wahanol rannau o gymdeithas yng Nghymru (oed, rhywedd, lleoliad ayb.).

## 9. Profiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr o dan y Ddeddf

*Sarah Wallace*

- 9.1 Mae'r bennod hon yn ffocysu ar ddefnyddwyr gofal cymdeithasol a gofalwyr a'u profiadau o dan y Ddeddf cyn ac ar ôl pandemig COVID-19. Mae'n tynnu bron yn ddiamwys ar lenyddiaeth lwyd o Gymru a phapurau ac adroddiadau a gyhoeddwyd rhwng 2018 a 2022, sef ffocws yr adolygiad hwn. Mae'n adrodd ar is-grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sydd fwyaf perthnasol i'n hastudiaeth, h.y. plant a phobl ifanc, oedolion a phobl hŷn, pobl anabl, neu bobl. ag anabledd dysgu a siaradwyr Cymraeg.
- 9.2 O dan y Ddeddf, diffinnir defnyddiwr gwasanaeth gofal cymdeithasol fel oedolyn neu blentyn angen gofal a chymorth a diffinnir gofalwr fel unigolyn sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal di-dâl ar gyfer oedolyn neu blentyn anabl. Mae'r Ddeddf yn nodi hawliau cyfartal gofalwyr i gael asesiad o'u hanghenion, yn yr un modd â'r bobl y maen nhw gofalu amdany'n nhw, ac os asesir bod ganddyn nhw angen cymwys, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gynllunio ar gyfer yr anghenion hynny a'u diwallu drwy sefydlu 'Cynllun Cymorth Gofalwyr' (Llywodraeth Cymru, 2021a; Gofalwyr Cymru, 2022).

### Trosolwg

- 9.3 Cynigodd Fframwaith newydd Perfformiad a Gwella ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gyflwynwyd 1 Ebrill 2020, set o fetrigau i'w casglu o dan adran 'Mesur gweithgaredd a Pherfformiad' (Llywodraeth Cymru, 2021b).
- 9.4 Mae'r data diweddaraf o'r metrigau hyn ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 hyd at 31 Mawrth 2021<sup>3</sup> yn dangos yn canlynol o ran defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yng Nghymru:

#### *Defnyddwyr gwasanaeth*

- derbyniwyd 149,591 o gysylltiadau gan wasanaethau cymdeithasol statudol ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth (IAA) oedolion.
- cwblhawyd 73,658 o asesiadau newydd ar gyfer oedolion
- derbyniwyd 176,408 o gysylltiadau gan wasanaethau cymdeithasol statudol ar gyfer gwasanaethau IAA plant.
- cwblhawyd 47,950 o asesiadau newydd ar gyfer plant.
- O 31 Mawrth roedd gan 2021, 46,585 o oedolion gynllun gofal a chymorth ac roedd cynllun gofal a chymorth 11% o'r rhain yn cael cymorth Taliad Uniongyrchol ac roedd gan 18,827 o blant gynllun gofal a chymorth ac roedd cynllun gofal a chymorth 7% o'r rhain yn cael cymorth Taliad Uniongyrchol.

#### *Gofalwyr*

- 6,841 o gysylltiadau gan wasanaethau cymdeithasol statudol gan oedolion neu weithwyr proffesiynol yn cysylltu â gwasanaethau IAA ar eu rhan.
- cwblhawyd 6,683 o asesiadau newydd ar gyfer oedolion o ofalwyr.

---

<sup>3</sup> Dyma'r tro cyntaf i ddata ar gyfer y metrigau gael ei gasglu arno. Mae problemau ansawdd yn ymwneud yn fras â data coll ac anghysonderau yn y modd y caiff data ei riportio ymhlith awdurdodau lleol. I oedolion (yn cynnwys oedolion o ofalwyr ) cyhoeddwyd data ar gyfer 21 o'r 43 o fetrigau. Hefyd cyhoeddwyd eitemau data ychwanegol ar ddiogelu. I blant, (yn cynnwys gofalwyr ifanc) cyhoeddwyd data ar gyfer 23 o'r 69 o fetrigau. Am ragor o wybodaeth darllenwch y [datganiad ansawdd-quality statement](#).

- 1,163 o gysylltiadau gan wasanaethau cymdeithasol statudol gan ofalwyr ifanc neu weithwyr proffesiynol yn cysylltu â gwasanaethau IAA ar eu rhan.
- cwblhawyd 806 o asesiadau newydd ar gyfer gofalwyr ifanc
- O 31 Mawrth 2021, roedd gan 2,116 o oedolion o ofalwyr gynllun cymorth. Ni ddarparwyd unrhyw fanylion penodol ar nifer o ofalwyr ifanc oedd â chynllun gofal a chymorth.

9.5 Yn ôl cyfrifiad 2011, mae dros 370,000 o ofalwyr yng Nghymru gyda thua 30,000 o ofalwyr o dan 25 oed<sup>4</sup>. Hefyd, yn y DU, Cymru ydy'r wlad sydd â'r canran uchaf o ofalwyr hŷn, gofalwyr o dan 18 oed a gofalwyr sy'n darparu dros 50 awr o ofal yr wythnos (Llywodraeth Cymru, 2021a). Mae ffynonellau eraill y amlygu bod nifer o ofalwyr ar ôl mis Mawrth 2020 wedi cynyddu'n sylweddol i tua 683,000 (Gofalwyr Cymru, 2020b), tra bod amcangyfrifon diweddar yn bwrw amcan mai 584,134 ydy nifer y gofalwyr yng Nghymru (Wythnos Gofalwyr, 2022).

### Persbectifau Cenedlaethol

- 9.6 Casglodd *Measuring the Mountain* (MtM) (Cooke et al., 2019a; Iredale & Cooke, 2020a) tua 1,000 o hanesion gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ar draws Cymru. Amlygodd canfyddiadau o gyfnod cyntaf MtM brofiadau amrywiol unigolion a gofalwyr gan danlinellu cymhlethdod eu bywydau ac o gyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol (Cooke et al., 2019a). Awgrymodd y dystiolaeth fod angen deall cyd-gynhyrchu yn well a'i ymgorffori yn rhyngweithiad dinasyddion a gofalwyr gyda gofal cymdeithasol a bod 'angen ystyried pobl yn bartneriaid wrth gyflenwi gofal cymdeithasol' (tud.79); nodweddd sy'n cael ei bwysleisio ymhellach yng nghyfnod dau o MtM.
- 9.7 Ar draws y ddau gyfnod, roedd hanesion negyddol a'r anawsterau a brofwyd yn cynnwys gorfod brwydro i gael cymorth, y teimlad eu bod yn cael eu barnu wrth gael eu hasesu am ofal a chymorth, systemau dryslyd a chymhleth, gorfod chwilio am wybodaeth yn hytrach na bod y wybodaeth yn cael ei chynnig, ac angen ffitio i mewn gyda darpariaeth y gwasanaeth. Mewn cyferbyniad, cynigiodd y rhai a gafodd brofiadau cadarnhaol enghreifftiau o broses gynhwysol, cytbwys o wneud penderfyniad a thrafodaethau ystyrion yn seiliedig ar asedau gyda gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol a hwyluswyd gan gyfathrebu manwl a dibynadwy a dulliau hyblyg o fynd ati.
- 9.8 Wrth dynnu eu casgliadau nododd Iredale & Cooke (2020a) 'mewn rhai achosion gwelwyd egwyddorion *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* 2014 ar waith yn amlwg ac yn unol ag amcanion y Ddeddf. Mewn eraill maen nhw ar goll ac mae profiadau pobl yn wael ar y gorau ac yn niweidiol ar y gwaetha (tud.91)<sup>5</sup>.
- 9.9 Mae pandemig COVID-19 wedi dwysáu'r sialensiau sydd eisoes yn bodoli o fewn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. O archwilio agweddau'r cyhoedd tuag at ofal cymdeithasol yng Nghymru, canfu Williams (2022) bod pobl o'r farn bod COVID-19 wedi peri straen sylweddol ar ofal cymdeithasol, yn ogystal ag ar iechyd, a ddyfynnwyd yn aml gan ymatebwyr i'r arolwg mai dyna'r rheswm pam nad oedd y 'rhai a deimlai bod angen gofal arnyn nhw heb ei gyrchu neu'n methu â'i gyrchu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf

<sup>4</sup> [Trigolion Cymru yn ôl oriau o ofal ac awdurdod lleol](#) – yn aros i ffigyrau cyfrifiad 2021 i gael eu cyhoeddi.

<sup>5</sup> [Llywodraeth Cymru \(2022\). 'Measuring The Mountain': ymateb i argymhellion 2020.](#)

(tud.4). Nodwyd hefyd bod pedwar allan o ddeg o'r rhai a deimlai bod angen gofal cymdeithasol arnyn nhw neu aelod o'r teulu agos yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ddim wedi ei dderbyn na gwneud defnydd ohono. Yn ogystal â COVID-19, ymhlith y rhesymau eraill roedd diffyg argaeledd neu brinder staff a'r 'broses o wneud cais yn rhy gymhleth' (tud.2). O fewn y grwpiau ffocws a gynhaliwyd fel rhan o'r un astudiaeth, nododd cyfranogwyr yr angen am gysondeb yn y gofal cymdeithasol a dderbyniwyd, gofal wedi'i bersonoli fwy, gwell integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a mwy o fuddsoddiad mewn gofal cymdeithasol.

## **Defnyddwyr gwasanaeth**

### *Plant a Phobl Ifanc*

- 9.10 Nododd canfyddiadau o Brosiect '*Right Way Social Care*' bod Plant a Phobl Ifanc sy'n derbyn cymorth am gael eu hystyried yn unigolion, am leisio'u barn a'u deall (Comisiynydd Plant Cymru (CCW, 2021). Amlygodd y canfyddiadau hefyd bwysigrwydd cyfathrebu a chyfrinachedd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc wrth rhyngweithio gydag oedolion sy'n eu cynorthwyo. Ymhlith y negeseuon allweddol mae ffurfio perthynas ymddiriedus, derbyn gwybodaeth o ansawdd da, derbyn adborth ar yr hyn a wnaed gyda'u barn a chynnal ystod eang o hawliau, yn cynnwys preifatrwydd, gwybodaeth a hawl i fywyd teuluol.
- 9.11 Cafwyd bod Plant a Phobl Ifanc ag anghenion cymhleth – e.e. y rhai sy'n profi gofid a thrallod gyda iechyd meddwl, llesiant emosiynol a phroblemau ymddygiad – wedi gorfod aros yn rhy hir i dderbyn cymorth, a chlywyd am brofiadau plant a phobl ifanc yn cael eu 'pasio' o wasanaeth i wasanaeth sydd dim yn gallu cytuno ar bwy sy'n gyfrifol am eu gofal (CCW, 2020).
- 9.12 Yn yr un modd mae Plant a Phobl Ifanc ag anabledau dysgu yn pontio i wasanaethau oedolion yn 'rhy aml' yn wynebu profiad cymhleth a dirdynol (CCW, 2020). Mewn gwaith cynharach a gynhaliwyd gan y CCW (2018a), ymhlith y negeseuon allweddol gan bobl ifanc a'u teuluoedd roedd diffyg cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan yn y broses gynllunio a gwneud penderfyniadau, gyda'r cynllunio'n cael ei wneud yn rhy aml 'amdanyn nhw' yn hytrach na 'gyda nhw', amrywiaeth yn y ddarpariaeth e.e. gwasanaethau â 'gwahanol ddulliau' (tud.4) o drosglwyddo pobl ifanc i wasanaethau oedolion, a disgwyliadau y bydd Pobl Ifanc anabl yn slotio i mewn i wasanaethau sydd eisoes yn bodoli. Amlygwyd hefyd y rôl hollbwysig a dibyniaeth ar rieni a'u hangen am gymorth a cydnabyddiaeth. Pan nododd Pobl Ifanc a'u teuluoedd brofiadau da o'r pontio, roedden nhw wedi bod yn rhan o'r broses, yn glir am y broses a theimlo eu bod yn cael cefnogaeth a chymorth da gan weithwyr allweddol, gweithiwr proffesiynol arweiniol neu wasanaeth pontio pwrpasol; ac yn aml yn gallu cyrchu darpariaeth ar gyfer ieuenctid oedd yn helpu pobl ifanc i baratoi at fywyd oedolyn ac ehangu eu rhwydweithiau cymdeithasol a chymunedol.
- 9.13 Tra'n cydnabod bod enghreifftiau o waith 'addawol' a da gyda'r grwpiau hyn o Blant a Phobl Ifanc mewn ardaloedd yng Nghymru, yn cynnwys paneli cymorth cynnar a bod gan pob ardal grwpiau aml-asiantaethol penodol sy'n ystyried anghenion Plant a Phobl Ifanc, daeth yr adroddiad i'r casgliad bod angen rhagor, bod angen i ardaloedd wneud mwy i ddysgu oddi wrth ei gilydd ac mewn rhai ardaloedd does dim llawer wedi newid yn enwedig ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag anabledau dysgu (CCW, 2020).

- 9.14 Pwysleisiodd gwaith blaenorol gan CCW bwysigrwydd bod gan Blant a Phobl Ifanc sy'n gadael gofal 'gyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw wrth iddyn gyrraedd oed oedolion' (CCW, 2018b). Er i awdurdod lleol yng Nghymru wneud cynnydd da, mae CCW (2018c) yn sylweddoli bod angen cynnydd pellach mewn rhai ardaloedd a meysydd. Roedd enghreifftiau penodol yn cynnwys diffyg eglurder ar y modd y mae addysg, gwasanaethau cymdeithasol a thai yn cydweithio o fewn pob ardal o'r awdurdod lleol i gynorthwyo'r rhai sy'n gadael gofal, a phwysigrwydd bod gwybodaeth glir, hygyrch ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal. Hefyd, nodwyd bod angen eglurder o fewn gwasanaethau am hawl y rhai sy'n gadael gofal i grantiau ac chyllid o fewn yr ALI oherwydd gall hyn fod yn sialens i'r bobl hynny sy'n gweithio gyda'r rhai sy'n gadael gofal.
- 9.15 Nod Arolwg *The Coronavirus and Me* (CCW, 2020) oedd darganfod beth oedd profiad Plant a Phobl Ifanc o'r pandemig yng Nghymru a chymharwyd ymatebion Plant a Phobl Ifanc Cymru ag anabledd â Phlant a Phobl Ifanc heb anabledd. Roedd Plant a Phobl Ifanc ag anabledd yn sylweddol fwy tebygol o ddweud bod cau busnes neu wasanaeth wedi cael effaith fawr arnyn nhw. Roedd enghreifftiau yn cynnwys canslo apwyntiadau ysbyty a chymorth seibiant yn cael ei ddiddymu. Amlygodd y canlyniadau hefyd fod Plant a Phobl Ifanc anabl yn sylweddol fwy tebygol o gynnig sylwadau am effaith negyddol y pandemig ar eu hiechyd meddwl.
- 9.16 Roedd Roberts et al. (2021) wedi edrych ar rianta corfforaethol yn ystod pandemig a chynnig a derbyn cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal yn ystod COVID-19. Dangosodd y canfyddiadau agweddau 'da' o rianta corfforaethol a rhai o'r agweddau hyn oedd gweithwyr proffesiynol yn sylweddoli beth oedd eu cyfrifoldeb o ran rianta corfforaethol, cysylltu â Phobl Ifanc, yn deall eu hanghenion a'u sefyllfa ac yn barod i ymateb yn ystyrlon. Roedd perthynas yn ganolog i ystyriaethau Pobl Ifanc ac roedden nhw'n gwerthfawrogi'r gweithwyr proffesiynol hynny oedd yn dangos diddordeb a'u consyrn am eu llesiant a chyfleu iddyn nhw eu bod ar gael ac yn ddibynadwy. Ac eto, roedd Pobl Ifanc eraill, yn teimlo nad oedd rhianta corfforaethol ar gael, ei fod yn ddi-fudd a/neu'n ddi-hid gyda thystiolaeth nad oedd unrhyw gysylltiad rhwng yr hyn adroddai gweithwyr proffesiynol am ymarfer a phrofiadau Pobl Ifanc.

### *Pobl Hŷn*

- 9.17 Tynnodd *Cyflwr y Genedl /State of the Nation* (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (OPCW), 2019) ar ystod o ffynonellau data yn cynnwys data sylfaenol a gasglwyd ar ran y Comisiynydd drwy bleidlais gan ICM Direct a data sefydliadol a ddarparwyd yn uniongyrchol ar gyfer swyddfa'r Comisiynydd gan Heddluoedd lleol yng Nghymru ac Adrannau Llywodraeth Cymru, setiau data ar gael yn gyhoeddus (e.e., Arolwg ar gyfer Cymru, Arolwg Gweithlu Llafur) a data a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru neu ar gael drwy StatsWales.com; Ystadegau Swyddogol a goladwyd a'u cyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegol Gwladol (SYG/ONS); ac adroddiadau a llenyddiaeth a gyhoeddwyd gan ystod o sefydliadau y sector cyhoeddus, preifat, academiaidd a'r trydydd sector. Dangosodd canfyddiadau bod anghydraddoldebau amlwg yn bodoli o fewn poblogaeth hŷn Cymru er gwaethaf bod llawer o bobl hŷn yn teimlo eu bod yn rheoli eu bywydau eu hun ac yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Cafodd llawer o bobl hŷn drafferth neu ddim yn gallu lleisio'u barn, yn aml yn teimlo'n ddi-rym pan fyddai cynigion yn cael eu gwneud a fyddai'n effeithio ar eu bywydau (OPCW, 2019).

- 9.18 O ran effaith COVID-19 ar bobol hŷn a'r sialensiau sylweddol roedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn eu hwynebu, cyfeiriodd yr OPCW (2020a) at yr angen am 'newid brys' (tud.10). Er enghraifft, roedd hyn yn cynnwys yr angen i ofal cymdeithasol i fod yn gydradd â'r GIG, rhagor o fuddsoddi mewn gwasanaethau, a chymorth i alluogi heneiddio'n iach. Ar ben hynny, roedd yn cynnwys yr angen i wrando ar farn pobl hŷn, i fod ynghanol y broses o wneud penderfyniadau a mabwysiadu gwir ddull person-ganolog o fynd ati i gynorthwyo pobl hŷn.
- 9.19 Golygai cyfyngiadau COVID-19 nad oedd llawer o 'bobl hŷn yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau oedd yn cynorthwyo eu hiechyd a'u llesiant, i ymglymu'n llawn yn eu cymunedau neu gyrchu'r gwasanaethau gofal iechyd a'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw, y cyfan er anfantais i'w hiechyd corfforol a meddyliol (OPCW, 2021). Cafodd yr adroddiad fod pwysau ar systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn golygu rhai yn colli eu gofal cartref, a hynny'n arwain at bobl hŷn fod yn fwyfwy dibynnol ar deulu a ffrindiau i ddarparu ychydig o'r cymorth hwn, naill ai fel gofalwyr newydd neu ychwanegu at eu cyfrifoldebau gofalu oedd eisoes yn bodoli.
- 9.20 Ymhlith y problemau a amlygwyd ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal yn ystod COVID-19 o oedd mynediad i wasanaethau iechyd (yn enwedig ymweliadau gan feddyg teulu), effaith y diffyg cymorth ar gyfer eu hiechyd corfforol yn ogystal ag effaith y pandemig ar ansawdd eu bywyd a'u hiechyd meddwl a'u llesiant (OPCW, 2020b). Fel y cyfryw, 'mae cyfnod y pandemig wedi dangos nad ydy hawliau pobl yn byw mewn cartrefi gofal bob amser yn cael eu cynnal a'u parchu ac mae angen camau gweithredu i atgyfnerthu a hyrwyddo hawliau preswylwyr' (OPCW, 2021, tud.14).

*Pobl anabl a phobl ag anabledd dysgu*

- 9.21 Mae Adroddiad Fforwm Cydraddoldeb Anabledd ar effaith COVID-19 (Foster, 2021) yn tynnu canlyniadau ymchwiliad dwys i brofiadau pobl anabl yn ystod y pandemig at ei gilydd. O ran y Ddeddf, amlygodd yr ymchwiliad effaith andwyol i fyw'n annibynnol <sup>6</sup>, a bod egwyddorion allweddol 'Llais, Dewis a Rheolaeth' wedi cael eu herydu'n ddifrifol (gwybodaeth anhygyrch ac ymgynghori gwael yn ystod COVID-19). Diddymwyd nifer o wasanaethau hanfodol neu eu cwtogi, yn aml ar fyr rhybudd a nodwyd profiadau o fethu â chyrchu gwybodaeth a gofal iechyd hirdymor hanfodol. Effeithiodd COVID-19 yn sylweddol ar iechyd corfforol a meddyliol pobl anabl a'u llesiant (e.e., pryder cynyddol, ynysiad) gydag unigolion yn colli grym, llais, dewis a dinasyddiaeth a effeithiodd ar eu bywyd o ddydd i ddydd.
- 9.22 Yn ychwanegol, roedd y rhai oedd yn byw ar eu pen eu hunain neu mewn sefydliadau yn arbennig o agored i niwed. Nodwyd hefyd bod oedolion byddar a'r rhai yn drwm eu clyw yn fwy tebygol o gael canlyniadau negyddol COVID-19, o ran mynediad gwael i wybodaeth gyhoeddus, cymorth anhygyrch (gwasanaeth ffôn), darpariaeth annigonol o ddehonglwyr a 'diffyg difrifol gwybodaeth yn BSL (Iaith Arwyddion Prydain)' (Foster, 2021, TUD.48).
- 9.23 Cyswllt anfynych gafodd holl aelodau Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan (2020) gyda'r gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y cyfnod clo, gyda rhai yn cael cyswllt a 'check ins' cyson, eraill yn derbyn galwadau achlysurol, neu eraill ddim cysylltiad o gwbl. Fodd bynnag,

---

<sup>6</sup> Siediwl 12 rhan 2 o Ddeddf Coronafeirws a ohiriodd ddyletswyddau allweddol o dan SSWBA

gwelwyd pethau positif a darpar newid hirdymor. Mewn rhai ardaloedd, nodwyd bod aelodau yn cychwyn cwestiynu lefel eu hangen ar gyfer gwasanaethau canolfan ddydd ac yn teimlo'n fwy hyderus a chyfforddus i aros gartref a rhyngweithio gydag eraill drwy sianeli digidol a chyrchu'r gymuned leol.

### *Siaradwyr Cymraeg*

- 9.24 Gyda 28% o siaradwyr rhugl yn y Gymraeg dros 65 oed, dylai sicrhau bod unigolion yn gallu defnyddio eu dewis iaith yn hanfodol bwysig wrth gynllunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (OPCW, 2021). Yn yr un modd, pwysleisiodd Cymdeithas Alzheimer's Cymru (2018) ystyriaethau iaith berthnasol ar gyfer gofal dementia, polisi allweddol a datblygiadau deddfwriaeth a bod darpariaeth y Gymraeg yn rhan bwysig o becyn iechyd a gofal pobl, yn enwedig ar gyfer plant, unigolion agored i niwed sy'n byw gyda dementia. Fodd bynnag, cafodd y sefydliad nad oedd anghenion siaradwyr Cymraeg sy'n byw gyda dementia yn cael eu diwallu, yn aml. Hefyd, cafwyd nad oedd gofal drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yn aml heb fod pobl yn gofyn. Tra'n cydnabod bod arferion da yn bodoli ar lefel leol a bod ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a bod y *Cynnig Gweithredol*<sup>7</sup> ar lefel strategol wedi gwella, doedd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddim wedi treiddio i'r gweithredu ymarferol a nodwyd anghysonderau yn argaeledd adnoddau, profion diagnostig ac asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg a phrin oedd yr enghreifftiau o anghenion defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg yn cael eu diwallu'n llawn.
- 9.25 Mae *Mwy na Geiriau* (Llywodraeth Cymru, 2019) wedi darparu cyfarwyddyd a chanllawiau strategol yn galluogi'r sector iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru i gynyddu ac atgyfnerthu darpariaeth ei gwasanaeth Cymraeg (Harries & Bryer, 2021). Er bod tystiolaeth yn dangos bod *Mwy na Geiriau* wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynnig gwasanaeth Gymraeg nid yn unig o ran hawl neu ddewis ond hefyd fel angen hanfodol i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n siaradwyr Cymraeg; mae'n ymddangos na chyflawnwyd llawer o gynnydd ar draws y mwyafrif o leoliadau o ran cyflenwi'r *Cynnig Gweithredol*. O'i gymharu â iechyd, amlygwyd mwy o gefnogaeth i amcanion strategol y fframwaith o fewn gofal cymdeithasol. Er hynny, mae canfyddiadau ymchwilwyr yn nodi bod diffyg cydraddoldeb rhwng y ddarpariaeth Saesneg a'r ddarpariaeth Gymraeg ar draws llawer o feysydd yn y sector ac ar lefel y cynllunio gweithredol roedd lefel y sialens o newid y diwylliant a meddylfryd yn uwch.

### **Gofalwyr**

- 9.26 Nod y Ddeddf ydy atgyfnerthu hawliau a gwella gwasanaethau ar gyfer gofalwyr; ac eto mae'r dystiolaeth yn dangos 'nad yw'r Ddeddf yn cael yr effaith a ddymunwyd' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2019, p.10<sup>8</sup>). Er bod y pandemig wedi cythruddo profiadau gofalwyr a dwysáu'r pwysau o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol hyd yn oed cyn COVID-19, doedd y Ddeddf ddim yn gweithio i ofalwyr (Gofalwyr Cymru, 2020b), ac roedd angen darparu cymorth gwell ar gyfer gofalwr (Cooke et al., 2019a). Ymhlith y cymorth

---

<sup>7</sup> Darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg heb fod rhywun yn gorfod gofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod yr un mor weladwy â'r Saesneg: [Cynnig Gweithredol](#)

<sup>8</sup> Mae tystiolaeth a ddyfynnwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyfeirio at Gofalwyr Cymru (2018), Arolygiaeth Gofal Cymru (2017), a chyn-Gomisiynydd Pobl Hŷn, Sarah Rochira, tud.10).

hychwanegol a ddyfynnwyd bod angen ar ofalwyr roedd cynnydd yn y cymorth ariannol i ofalwyr a mwy o fuddsoddi yn y gwasanaethau gofal a chymorth i alluogi gofalwyr gael seibiant o'u rôl gofalu (Wythnos Gofalwyr, 2022).

### Cyn-COVID-19

- 9.27 Roedd ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2019) ar effaith y Ddeddf ar ofalwyr o bob oed yng Nghymru yn ffocysu'n benodol ar asesiad o anghenion, darparu cymorth yn cynnwys gofal seibiant; darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth; a gwybodaeth a gasglwyd gan ALLau a byrddau iechyd am ofalwyr a'u hanghenion. Cafodd yr ymchwiliad o dystiolaeth a dderbyniwyd gan y pwyllgor, bod y Ddeddf wedi cael 'cefnogaeth yn gyffredinol ond mynegwyd siom yn y modd y gweithredwyd y Ddeddf a'r modd y darparwyd adnoddau ar gyfer ei gweithredu' (tud.17). Hefyd, cafodd yr ymchwiliad mai 'bylchog ac ysbeidiol' oedd y gwelliannau ar gyfer gofalwyr (tud.15), ac nad oedd mwyafrif o ofalwyr yn ymwybodol o'r Ddeddf ei hun, a'u hawliau o dan y Ddeddf, yn enwedig o ran eu hawl i asesiad o anghenion gofalwyr. I ofalwyr ifanc ac oedolion ifanc o ofalwyr, nodwyd bod diffyg adnabyddiaeth yn bodoli ymhlith gwasanaethau cyhoeddus ac anghysonderau o ran asesiadau a chymorth. Cyfeiriodd canfyddiadau hefyd at ofalwyr yn gorfod 'brwydro' am wasanaethau a'r effaith ar ei hiechyd a'u llesiant eu hunain oherwydd bod diffyg hyblygrwydd mewn gwasanaethau megis seibiant, gwasanaethau yn amrywio o ran ansawdd ac yn anodd i'w cyrchu.
- 9.28 Galwodd Gofalwyr Cymru (2019a) am ddiwygio'r system er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cynorthwyo'n briodol. Datgelodd canfyddiadau'r arolwg fod gofalwyr yn dioddef o unigrwydd ac ynysu cymdeithasol, pwysau ariannol ac yn wynebu problemau iechyd eu hunain oherwydd eu rôl gofalu. O ran asesiadau gofalwyr, roedd 28% wedi derbyn asesiad neu adolygiad o'u hasesiad yn ystod y 12 mis blaenorol. Teimlai mwyafrif y gofalwyr a oedd wedi derbyn asesiad/adolygiad yn ystod y flwyddyn flaenorol na thalwyd digon o sylw i'w hanghenion.
- 9.29 Mae canfyddiadau '*Track the Act Briefing 4*' Gofalwyr Cymru (2019b) yn atgyfnerthu pwysigrwydd bod gofalwyr yn derbyn cyngor amserol a phriodol, sy'n galluogi gofalwyr i fod yn gydnerth a'u hatal rhag gorfod cael cymorth mwy ffurfiol. Eto, o'r rhai a oedd wedi derbyn asesiad gofalwr, roedd y mwyafrif wedi gofyn am asesiad eu hunain yn hytrach na chael cynnig un, ac o ran cymorth, nododd '57% o ofalwyr 'nad oedden nhw'n 'derbyn unrhyw gymorth' (tud.14). Mae canfyddiadau arolwg gofalwyr '*Track the Act 5*' yn adleisio'r rhai a gafwyd yn '*Track the Act 4*': doedd llawer o ofalwyr (85%) heb gael asesiad o'u hanghenion yn ystod y flwyddyn cyn Mawrth 2020 a doedd 72% ddim wedi derbyn nac wedi cael cynnig asesiad ers i'r Ddeddf gael ei chyflwyno (Gofalwyr Cymru, 2020b). Nododd canfyddiadau '*Track the Act 5*' hefyd fod diffyg ymwybyddiaeth am asesiad o anghenion gofalwyr a gyda thros 41% o ofalwyr yn nodi nad oedden nhw wedi clywed am asesiad o anghenion cyn cwblhau'r arolwg.

### Ôl-COVID-19

- 9.30 Mae'r amcangyfrif o nifer y gofalwyr yng Nghymru ar ôl COVID-19 yn amrywio ond mae pawb yn gytûn bod cynnydd sylweddol wedi digwydd. (gweler 9.5). Disgrifir llawer o'r gofalwyr ychwanegol hyn yn 'ofalwyr cudd' sydd ddim yn ystyried eu hunain yn ofalwyr nac yn galw eu hunain yn ofalwyr ac mae hyn yn andwyol o ran cyrchu gwybodaeth, cyngor a chymorth; (Gofalwyr Cymru, 2020b). Cyfeiriodd un safbwynt canolog yn y dystiolaeth a



gasglwyd gan arolwg Gofalwyr Cymru (2020b) at yr ynysu a'r unigrwydd a brofodd gofalwyr yn ystod y pandemig oherwydd y cyfyngiadau a'r cysgodi ac o'u hamddifadu o rwydweithiau gofalwyr (tud.2). Mae canfyddiadau yn disgrifio 'diffyg cydnabyddiaeth systematig' (tud 3) o ofalwyr a'u rôl yn ystod y cyfnod clo.

- 9.31 O ran cymorth a gwasanaethau, ymhlith y rhwystrau a nodwyd rhag cyrchu gwasanaethau roedd diffyg ymwybyddiaeth o wasanaethau a ffynonellau ar gyfer gofalwyr yn eu cymunedau lleol neu'r teimlad nad oedd y gwasanaethau sydd ar gael iddyn nhw yn diwallu eu hanghenion ac anghenion yr unigolion y maen nhw'n gofalu amdany'n nhw (Carers UK, 2021). Roedd cau neu ostwng y ddarpariaeth yn y ddarpariaeth yn golygu bod gofalwyr yn gorfod darparu mwy o ofal gyda llai o gymorth, a thrwy hynny yn cwtogi ar eu gallu i gymryd cyfnodau seibiant o'r gwaith gofalu. Ar ben hynny, o gymharu canfyddiadau arolwg Gofalwyr Cymru (2019a), roedd nifer y gofalwyr oedd wedi derbyn asesiad o'u hanghenion wedi gostwng (o 28% i 21%). O ran eu hiechyd nhw eu hunain, nododd gofalwyr bod eu hiechyd corfforol a meddyliol wedi gwaethygu yn ystod y pandemig.
- 9.32 Nododd Templeton et al. (2021), bod prinder llenyddiaeth a ganolbwyntiai ar asesu anghenion gofalwyr ifanc gyda'r fwyafrif y dystiolaeth yn cyfeirio at oedolion o ofalwyr, a nemor ddim tystiolaeth o ran COVID-19 a phrosesau asesu, ond yn hytrach cafwyd gwybodaeth gyffredinol am gymorth i ofalwyr. Ymhlith y sialensiau i gyrchu asesiadau roedd gofalwyr a/neu gweithwyr proffesiynol/ gwasanaethau yn peidio â nodi gofalwr, dryswch o ran y derminoleg, diffyg gwybodaeth neu gyngor amserol, dryswch o ran ble i gyrchu cymorth, oedi wrth gyrchu asesiad neu beidio â chwrrd â'r meini prawf, rhwystrau iaith, nam ar y synhwyrâu a mynediad cyfyngedig i'r we. Ymhlith y grwpiau penodol a nodwyd eu bod mewn mwy o berygl o beidio â chyrchu gwybodaeth, roedd pobl oedd yn gofalu am blant ag anghenion cymorth ychwanegol, gofalwyr heb fod mewn gwaith a/neu'n chwilio am gyflogaeth, gofalwyr ifanc a gofalwyr pobl yn byw gyda dementia. Roedd galluogwyr yn cynnwys staff medrus iawn (gwybodaeth, agweddau a phwysigrwydd bod gofalwyr yn teimlo bod pobl yn gwrando arny'n nhw ac yn cael eu parchu yn ystod y broses asesu); adnoddau ar-lein wedi'u dylunio'n dda a grwpiau gofalwyr (cymorth cymheiriad).
- 9.33 Mae Burrows et al. (2021) yn amlygu ymhellach y pwysau a wynebai gofalwyr yn ystod eu COVID-19. Er bod y pandemig wedi galluogi rhai gofalwyr i deimlo eu bod yn 'camu oddi ar y felin draed' (tud.5), a hynny'n caniatáu amser iddyn nhw ymlacio gyda'r unigolyn roedden nhw gofalu, dwysawyd strés, pryder ac ynysiad llawer o ofalwyr. Roedd yr enghreifftiau a ddarparwyd yn cynnwys terfynu'r ddarpariaeth, colli cysylltiad gyda ffynonellau cymorth megis ffrindiau a theulu, cynnydd yn yr amser a dreuliwyd yn mynd ar ôl gwasanaethau a phryderon ariannol cynyddol. Fodd bynnag, gwerthfawrogwyd nodweddion megis mynediad ar-lein i grwpiau gofalwyr ac addasiad cyflym i grwpiau cymorth oedolion o ofalwyr a chymorth i lesiant. Ond, daeth awduron i'r casgliad, er gwaethaf bod gofalwyr yn ganolog i gynllunio gofal, mae eu llesiant eu hunain yn dioddef oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu. Ar ben hynny, dydy'r Ddeddf a Strategaeth Gofalwyr Llywodraeth Cymru (2021a) ddim wedi creu'r newidiadau yn nulliau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o fynd ati i weithio gyda gofalwyr a'u cynorthwyo.
- 9.34 Yn ystod uwchgynhadledd Gofalwyr Cymru (2022), mynegwyd rhwystredigaeth, dicter a siom gan ofalwyr bod y pandemig wedi cael effaith andwyol ar sefyllfa oedd eisoes yn sigledig a bod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn heriol ar sawl lefel. Ymhlith y themâu allweddol roedd yr angen am welliannau o ran gofalwyr yn cyrchu eu hawliau ac elwa

ohonyn nhw o fewn y Ddeddf, gwelliannau o ran adnabod a deall rôl gofalwyr, rhagor o barch at wybodaeth a phrofiad gofalwyr, gwelliannau mewn cyfathrebu ystyrion gydag ymglymiad gofalwyr ar draws gwasanaethau statudol a gwelliannau yn narpariaeth gwasanaeth i gynorthwyo gofalwyr i ofalu yn ddiogel a hyderus.

### **Negeseuon allweddol**

- 9.35 Mae'r adran hon wedi cyflwyno'r hyn y mae'r llenyddiaeth yn ei ddweud am brofiadau is-grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth (h.y., Plant a Phobl Ifanc, oedolion a phobl hŷn, yr anabl a phobl ag anableddau dysgu a siaradwyr Cymraeg) a gofalwyr o dan y Ddeddf.
- 9.36 Mae canfyddiadau yn amlygu ehangder ac amrywiaeth profiadau ymhlith defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sy'n derbyn cymorth a gofal. Nododd yr adolygiad nifer o nodweddion y mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr feddwl mawr ohonyn nhw e.e., perthynas ymddiriedus, cael cynnig gwybodaeth a chyingor amserol, cyfathrebu ystyrion, a phwysigrwydd cynnwys pobl wrth gyflenwi eu gofal a'u cymorth.
- 9.37 Eto i gyd, er y ceir enghreifftiau o arferion da a phrofiadau da drwyddi draw, mae'r dystiolaeth o fewn yr adolygiad yn datgelu nifer o sialensiau a phroblemau yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr; a dydy mynediad i ddarpariaeth dda ddim yn gyson. Er enghraifft, er gwaetha'r hawl i asesiad o dan y Ddeddf, cafodd gofalwyr hi'n anodd i gael asesiad ac yn aml ddim yn cael cynnig un fel mater o drefn, ac mae anghysonderau yn dal i fodoli yn yr asesiadau a gynigir gan wahanol awdurdodau lleol.
- 9.38 Mae COVID-19 wedi gwaethygu anawsterau cyfredol ar gyfer unigolion a chyflenwi iechyd a gofal cymdeithasol ac mae dipyn o ffordd i fynd i wireddu amcanion y Ddeddf ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth a gofalwyr.

## Rhestr Gyfeirio A – Cyhoeddiadau a ddyfynnwyd yn yr adroddiad hwn

Moher, D., Liberati, A., Tetzlaff, J., Altman, D. & The PRISMA Group (2009). Preferred Reporting Items for Systematic Reviews and Meta-Analyses: The PRISMA Statement. *PLOS Medicine*. 6 (7): e1000097. [The PRISMA Statement](#).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014). Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ar gael ar: [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#).

### Llesiant

Alkire, S. (2015). Capability Approach and Well-being Measurement for Public Policy. *OPHI Working Paper 94*, Oxford University.

Atkinson, S. (2013). Beyond components of well-being: The effects of relational and situated assemblage. *Topoi*, 32(2), 137-144.

Dolan, P. & Metcalfe, R. (2012). Measuring subjective wellbeing: Recommendations on measures for use by national governments. *Journal of Social Policy*, 41(2), 409-427.

Henderson, L. W. & Knight, T. (2012). Integrating the hedonic and eudemonic perspectives to more comprehensively understand wellbeing and pathways to wellbeing. *International Journal of Wellbeing*, 2(3), 196-221.

Huppert, F. & Timothy, T. (2013) Flourishing Across Europe: Application of a New Conceptual Framework for Defining Well-Being. *Social Indicators Research*, 110, pp. 837-861

Ruggeri, K., Garcia-Garzon, E., Maguire, A., Matz, S. & Huppert, F. (2020) Well-being is more than happiness and life satisfaction: a multidimensional analysis of 21 countries in Health and *Quality of Life Outcomes*, 18.

Selwyn, J., Wood, M. & Newman, T. (2017). Looked after children and young people in England: Developing measures of subjective well-being. *Child Indicators Research*, 10(2), 363-380.

Sen, S. (2009). Ideas of Justice. Oxford. Oxford University Press.

### Atal a Ymyrraeth gynnar

Abrams, T., Man, M. & McLeod, R. (2019). Building Connections Fund: Guidance on co-design and community spaces. London. NPC.

Allen, K. & Glasby, J. (2010). The (Multi-)Billion Dollar Question: Embedding Prevention and Rehabilitation in English Health and Social Care. *Journal of Integrated Care*. 18 (4): 26-35.

Bedford, S. & Harper, A. (2018). Sustainable social care: What role for community business? London. The New Economics Foundation.

Clark, P. (2019). Problems of Today and Tomorrow': Prevention and the National Health Service in the 1970s. *Social History of Medicine*, 33(3), 981-1000.

Curry, N. (2006). Preventative Social Care: Is it Cost Effective? King's Fund. Ar gael ar: [Preventative Social Care: Is it Cost Effective? King's Fund](#).

Emerson, E., Hatton, C. & Robertson, J. (2011). Prevention and Social Care for Adults with Learning Disabilities. A Scoping Review. School for Social Care Research. Ar gael ar: [Prevention and Social Care for Adults with Learning Disabilities. A Scoping Review. School for Social Care Research](#).

Gough, I. (2013). The Political Economy of Prevention. *British Journal of Political Science*, 45(2), 307-327.

- Hull, D., Davies, T. & Swersky, A. (2016). The Community Business Market in 2016. Research Institute Report No. 4. Power to Change. Ar gael ar: [The Community Business Market in 2016](#).
- Kerslake, A. (2011). Investing in prevention for older people at the health and social care interface. Oxford. Institute of Public Care, Oxford Brookes University.
- Knapp, M., Bauer, A., Perkins, M. & Snell, T. (2012). Building community capital in social care: is there an economic case? *Community Development Journal*, 48(2), 313-331.
- Marczak, J., Wistow, G. & Fernandez, J. (2019). Evaluating Social Care Prevention in England: Challenges and Opportunities. *Journal of Long-Term Care*, (2019), 206–217.
- Miller, R. & Whitehead, C. (2015). Inside out and down: Community based approaches to social care prevention in a time of austerity. University of Birmingham. Ar gael ar: [Inside out and down: Community based approaches to social care prevention in a time of austerity](#).
- Shapiro, V.B., Hawkins, D.J., Oesterle, S., Monahan, K.C., Brown, E.C. & Arthur, M.W. (2013). Variation in the Effect of Communities That Care on Community Adoption of a Scientific Approach to Prevention. *Journal of Social Work Research*, 4(3).
- Tew, J., Duggal, S., Carr, S., Ercolani, M., Glasby, J., Kinghorn, P., Miller, R., Newbigging, K., Tanner, D. & Afentou, N. (2019). Implementing the Care Act 2014: Building social resources to prevent, reduce or delay needs for care and support in adult social care in England. University of Birmingham for the Department of Health and Social Care.
- Warin, M., Zivkovic, T., Moore, V., Ward, P. & Jones, M. (2015). Short horizons and obesity futures: Disjunctures between public health interventions and everyday temporalities. *Social Science & Medicine*, 128, 309-315.

## Cyd-gynhyrchu

- Bradley, E. (2015). Carers and co-production: Enabling expertise through experience? *Mental Health Review Journal*, 20(4), 232–241.
- Budge, G., Mitchell, A., Rampling, T., Down, P. & Bridge Collective (2019). “It kind of fosters a culture of interdependence”: a participatory appraisal study exploring participants' experiences of the democratic processes of a peer-led organisation. *Journal of Community & Applied Social Psychology*, 29(3), 178-192.
- Denbighshire Voluntary Services Council (2018). Sustainable Funding: Small is Beautiful (and Wise). Summary of Wales School for Social Care Research event. Ar gael ar: [Sustainable Funding: Small is Beautiful \(and Wise\)](#).
- Doran, P. & Buffel, T. (2018). Translating Research into Action: involving older people in co-producing knowledge about age-friendly neighbourhood interventions. *Working with Older People*, 22(1), 39-47.
- Dougall, D., Lewis, M. & Ross, S. (2018). Transformational Change in Health and Care: Reports from the Field. London: The King's Fund.
- Dunér, A., Bjälkebring, P. & Johansson, B. (2019). Autonomy, Choice, and Control for Older Users of Home Care Services: Current Developments in Swedish Eldercare. *Journal of Social Service Research*, 45(1), 129-141.
- Ellis, R. (2017). Heritage and Stigma. Co-producing and communicating the histories of mental health and learning disability. *Medical Humanities*, 43, 92-98.
- Flinders, M. & Wood, M. (2018). Ethnographic insights into competing forms of co-production: A case study of the politics of street trees in a northern English city. *Social Policy Administration*, 53, 279-294.

- Ford, S.B. Bowyer, T. & Morgan, P. (2015). The experience of compulsory treatment: the implications for recovery-orientated practice? *Mental Health and Social Inclusion*, 19(3), 126-132.
- Freeman, L.R., Waldman, M., Storey, J., Williams, M., Griffiths, C., Hopkins, K., Beer, E. & Davies, J. (2016). Working towards co-production in rehabilitation and recovery services. *Journal of Mental Health Training, Education and Practice*, 11(4), 197-207.
- Gale, N., Brown, P. & Sidhu, M. (2018). Co-production in the epidemiological clinic: A decentred analysis of the tensions in community based, client-facing risk work. *Social Policy Administration*, 53, 203-218.
- Gunasekara, I, Patterson, S, & Scott, J.G. (2017). What makes an excellent mental health doctor? A response integrating the experiences and views of service users with critical reflections of psychiatrists. *Health and Social Care in the Community*, 25(6), 1752-1762.
- Harlock, J. (2014). From outcomes-based commissioning to social value? Implications for performance managing the third sector. Third Sector Research Centre, Working Paper series 123.
- Keinhans, R. (2017). False promises of co-production in neighbourhood regeneration: the case of Dutch community enterprises. *Public Management Review*, 19(10), 1500-1518
- Lowe, T. & Plimmer, D. (2019). Exploring the new world: Practical insights for funding, commissioning, and managing in complexity. Collaborate For Social Change.
- Maurits, E.E.M., Veer, A.J.E. de, Groenewegen, P.P. & Francke, A.L. (2018). Attractiveness of people centred and integrated Dutch home care: a nationwide survey among nurses. *Health and Social Care in the Community*, 26(4), 523-531.
- McCarry, M., Larkins, C., Berry, V., Radford, L. & Stanley, N. (2018). The Potential for Co-production in Developing Violence against Women Services in Wales. *Social Policy & Society*, 17(2), 193-208.
- Meerkerk, I., Kleinhans, R. & Molenveld, A. (2018). Exploring the durability of community enterprises: A qualitative comparative analysis. *Public Administration*, 96(4), 651-667.
- Milson, S.G. (2018). Engagement of older people in Wales – how Cymru Older People’s Alliance is forging a new direction. *Working with Older People*, 22(2), 69-75.
- Miller, E. & Barrie, K. (2016). Personal outcomes: Learning from the Meaningful and Measurable project: Strengthening links between identity, action and decision-making. Healthcare Improvement Scotland.
- Munroe, E. (2011). The Munroe Review of Child Protection: Final Report. London, The Stationery Office.
- Nandram, S. & Koster, N. (2014). Organizational innovation and integrated care: lessons from Buurtzorg. *International Journal of Integrated Care*, 2(4), 174-184.
- O’Leary, P., Tsui, M.S. & Gillian, R. (2012). The boundaries of the social work relationship revisited: towards a connected, inclusive and dynamic conceptualisation. *British Journal of Social Work*, 43(1), 135-153.
- Parry-Jones, B. & Soulsby, J. (2001). Needs-led assessment: the challenges and the reality. *Health and Care in the Community*, 9(6), 414-28.
